- 1.8.1. Fe wnaethant hefyd ganfod fod 73% o fenywod sy'n byw â'u cam-driniwr ac yn cael cysylltiadau ariannol â nhw wedi dweud bod yr argyfwng costau byw naill ai wedi eu hatal rhag gadael neu wedi ei gwneud hi'n anoddach gwneud hynny.<sup>52</sup>
- 1.8.2. Mae prisiau cynyddol yn cael effaith ar lochesau hefyd. Nododd rhai eu bod yn gorfod ceisio talu am y cynnydd yn eu costau ynni o gronfeydd wrth gefn ac yn wynebu trafferthion recriwtio gan nad yw gwerth contractau'n cynyddu yn unol â chostau staffio cynyddol.<sup>53</sup>

## 2. Pam mae menywod yn fwy agored i effeithiau'r argyfwng costau byw?

2.1. Yn anffodus, nid yw effaith anghyfartal yr argyfwng costau byw yn syndod. Mae'n deillio o'r anghydraddoldeb parhaus y mae menywod yn dal i'w wynebu, sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed. Ar draws ystod o fesurau gallwn weld sut mae anghyfartaledd rhywedd wedi creu a/neu waethygu'r sefyllfa.

### 2.2. Tlodi

2.2.1. Mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a phrofi tlodi tanwydd a bwyd. Mae lefelau tlodi'n debygol o gynyddu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, a bydd hyn yn effeithio'n enbyd ar fenywod.

#### 2.2.2. Tlodi incwm cymharol<sup>54</sup>

- Mae 23% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.
- Mae 46% o unig rieni'n byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r mwyafrif o unig rieni'n fenywod.
- Mae 30% o aelwydydd un fenyw heb blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol (27% o aelwydydd un gwryw heb blant).
- Mae tebygolrwydd o 29% bod aelwydydd dan arweiniad person o grŵp ethnig nad yw'n wyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â thebygolrwydd o 24% ar gyfer aelwydydd dan arweiniad person gwyn.

#### 2.2.3. Amddifadedd Materol

- Mae 13% o oedolion 16+ yn byw mewn amddifadedd materol; 15% o fenywod; 11% o ddynion.<sup>55</sup>

---

<sup>52</sup> Ibid.

<sup>53</sup> Ibid.

<sup>54</sup> Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2019-i-fawrth-2020> [Cyrchwyd Awst 2022]

<sup>55</sup> Ystadegau Cymru [https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Well-being-and-Finances/percentageofpeoplelivinginhouseholds\(materialdeprivation-by-localauthority-year\)](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Well-being-and-Finances/percentageofpeoplelivinginhouseholds(materialdeprivation-by-localauthority-year)) [Cyrchwyd Awst 2022]

#### 2.2.4. Tlodi Tanwydd

- Rhagwelir y bydd 68.7% o aelwydydd yng Nghymru yn wynebu tlodi tanwydd erbyn Ionawr 2023.<sup>56</sup>
- Dim ond 47% o dai yng Nghymru sydd â pherfformiad ynni digonol.<sup>57</sup>

#### 2.2.5. Tlodi Bwyd

- Hyd yn oed cyn Covid, roedd menywod ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o wynebu ansicrwydd bwyd (13% o'i gymharu â 5%) a bron i ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud na allen nhw fforddio prydau cytbwys (15% o'i gymharu ag 8%).<sup>58</sup>
- Yn ôl ymchwil gan Ymddiriedolaeth Trussell, mae un o bob tri pherson ar Gredyd Cynhwysol wedi methu â fforddio bwyd digonol – h.y. roedd mwy nag un diwrnod yn ystod y mis diwethaf lle nad oedden nhw wedi bwyta o gwbl neu ond wedi cael un pryd bwyd (Mawrth 2022).<sup>59</sup>
- Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi nodi bylchau yn y dystiolaeth yn ymwneud â hil a rhywedd ac ansicrwydd bwyd<sup>60</sup>, felly nid oes gennym ddarlun llawn o'r sefyllfa.

#### 2.2.6. Safon Isafswm Incwm

- Yn 2022, cyfrifwyd mai £25,000 oedd y Safon Isafswm Incwm ar gyfer un person.<sup>61</sup> Enillion blynyddol cyfartalog menywod yng Nghymru yw £22, 041.<sup>62</sup>

#### 2.2.7. Digartrefedd<sup>63</sup>

- Yn 2020-21, cafodd 7290 o aelwydydd Cymru eu hasesu fel rhai mewn perygl o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod; menywod oedd 4338 (60%) o'r rhain.
- Yn 2021-22, cafodd 9228 o aelwydydd Cymru eu hasesu fel rhai mewn perygl o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod; menywod oedd 5457 (59%) o'r rhain. Cynnydd o 21% ers 2021-22.

---

<sup>56</sup>“Two thirds of UK families could be in fuel poverty by January”

<https://www.theguardian.com/society/2022/aug/17/two-thirds-of-uk-families-could-be-in-fuel-poverty-by-january-research-finds> [Cyrchwyd 26.08.22]

<sup>57</sup> Llywodraeth Cymru (2019) *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Effeithlonrwydd Ynni Anheddau*

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebrill-2017-i-mawrth-2018-794.pdf> [Cyrchwyd Awst 2022]

<sup>58</sup> Chwarae Teg (2019) *Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw*

<sup>59</sup>Ymddiriedolaeth Trussell (2022) *The True Cost of Living* <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2022/03/The-true-cost-of-living.pdf>

<sup>60</sup> Ymddiriedolaeth Trussell (2021) *State of Hunger 2021* <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2021/05/State-of-Hunger-2021-Report-Final.pdf>

<sup>61</sup> Joseph Rowntree Foundation (2022) *Minimum Income Standard 2022*

<sup>62</sup> Arolwg Blynyddol ONS o Oriau ac Enillion 2022 Tabl Canlyniadau Dros Dro 7.7a

DS: Bydd ffigyrau dros dro ar gyfer tâl cyfartalog 2022 yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd, a bydd y ffigwr ar gyfer cyflog menywod yn cael ei ddiweddarau bryd hynny.

<sup>63</sup> Ystadegau Cymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-age-gender> [Cyrchwyd 26.08.22]

## 2.3. Tâl

2.3.1. Mae menywod yn dal i gael llai o gyflog na dynion ar gyfartaledd, ac yn fwy tebygol o fod mewn swyddi cyflog isel, gan eu gwneud yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a mynd i dlodi yn wyneb costau cynyddol.

### 2.3.2. Tâl is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol

- Yn 2021, roedd 17.9% o holl swyddi Cymru ar dâl is na'r Cyflog Byw.<sup>64</sup>
- Mae 20.8% o weithwyr benywaidd ar dâl is na'r Cyflog Byw gwirioneddol, o'i gymharu â 14.8% o weithwyr gwrywaidd<sup>65</sup>; mae 33.1% o swyddi rhan-amser ar dâl is na'r Cyflog Byw gwirioneddol o'i gymharu â 11.5% o swyddi llawn-amser.<sup>66</sup>
- Mae dwywaith cymaint o fenywod na dynion yn y 10% isaf o enillwyr cyflog ac mae menywod yn cynrychioli 60% o'r rhai sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.<sup>67</sup>

### 2.3.3. Newid mewn enillion wythnosol

- Fe wnaeth cyflogau wythnosol menywod yng Nghymru gynyddu 3.1% rhwng 2020 a 2021, tra bod cyflogau wythnosol dynion wedi cynyddu 3.6%.<sup>68</sup> Rhwng 2021 a 2022, wnaeth cyflog wythnosol dynion cynyddu o 6.2% a chyflog fenywod o 8.7%.<sup>69</sup> Er bod cynnydd mwy mewn cyflogau rhwng 2021 a 2022, gyda chwyddiant yn 10%, mae hyn dal i fod yn doriad cyflog mewn termau real.

	2022	2021	2020	2019
<b>Dynion</b>	£550	£517.80	£500	£492.20
<b>Menywod</b>	£424.10	£390.20	£374.80	£360.70

## 2.4. Gofal plant

2.4.1. Mae gofal plant yn parhau i ddylanwadu'n sylweddol ar waith cyflogedig menywod, gan bennu'n aml a ydyn nhw mewn gwaith, yr oriau maen nhw'n eu gweithio a'r cyfleoedd sydd ganddyn nhw i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

### 2.4.2. Costau newidiol gofal plant

- Ar sail ffigyrau o arolwg gofal plant blynyddol Coram, roedd rhieni yng Nghymru'n talu £114 ar gyfartaledd am 25 awr yr wythnos o ofal ar gyfer plant o dan dair oed yn 2021. Cynyddodd hyn i £125 yn 2022 (cynnydd o 9.6%). Am 50 awr yr wythnos o ofal

<sup>64</sup>Ymchwil Senedd Cymru "Y cyflog byw 'gwirioneddol' a gwaith teg: Beth yw'r datblygiadau diweddaraf?" <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-cyflog-byw-gwirioneddol-a-gwaith-teg-beth-yw-r-datblygiadau-diweddaraf/> [Cyrchwyd Awst 2022]

<sup>65</sup>Ymchwil Senedd Cymru "Y cyflog byw 'gwirioneddol' a gwaith teg: Beth yw'r datblygiadau diweddaraf?" <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-cyflog-byw-gwirioneddol-a-gwaith-teg-beth-yw-r-datblygiadau-diweddaraf/> [Cyrchwyd Awst 2022]

<sup>66</sup>Ymchwil Senedd Cymru "Y cyflog byw go iawn a gwaith teg: beth yw'r datblygiadau diweddaraf?" <https://research.senedd.wales/research-articles/the-real-living-wage-and-fair-work-what-are-the-latest-developments/> [Cyrchwyd Awst 2022]

<sup>67</sup> UK Women's Budget Group (2022) *The gendered impact of the cost of living crisis*

<sup>68</sup> Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021 a gafwyd drwy Nomis

<sup>69</sup> Arolwg Blynyddol ONS o Oriau ac Enillion 2022 Tabl Canlyniadau Dros Dro 7.7a

ar gyfer plant o dan dair oed, y gost gyfartalog yn 2021 oedd £227, sydd bellach wedi cynyddu i £246 (cynydd o 8.3%).<sup>70</sup>

## 2.5. Cynilion a Dyledion

2.5.1. Mae menywod yn llai tebygol o gael cynilion, felly bydd ganddyn nhw lai i ddisgyn yn ôl arno wrth i gostau fynd yn fwy na chyflogau. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o fod mewn dyled ac o ddefnyddio credyd cost uchel i dalu am hanfodion.

### 2.5.2. Cynilion

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020-21, dywedodd 21% o fenywod yr hoffon nhw allu cynilo £10 y mis ond nad ydyn nhw'n gallu fforddio gwneud hynny o gymharu â 15% o ddynion.<sup>71</sup>
- Dywedodd 78% o oedolion o gartrefi dan arweiniad rhywun o gefndir Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Brydeinig, 72% o gefndir Pacistanaidd a 73% o gefndir Bangladeshaidd fod ganddyn nhw lai na £1,500 mewn cynilion a buddsoddiadau, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 48%.<sup>72</sup>

### 2.5.3. Dyledion

- Yn ôl Step Change, menywod oedd 60% o'u cleientiaid a oedd yn chwilio am gymorth â dyledion yn 2019 – roedd gan 38% o fenywod ddyledion treth gyngor o'i gymharu â 33% o ddynion.<sup>73</sup>
- Cyn y pandemig, roedd 61% o'r rhai oedd yn mynd i ddyled er mwyn prynu hanfodion bob dydd yn fenywod.<sup>74</sup>

### 2.5.4. Defnyddio credyd<sup>75</sup>

- Yn ôl Arolwg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn 2020 roedd mwy o fenywod (13%) yn defnyddio credyd cost uchel na dynion (8%). Roedd menywod (yn enwedig rhai 25 i 54 oed) dair gwaith yn fwy tebygol o fod â chredyd catalog neu gyfrif siopa (18%) o gymharu â dynion (7%). Mae menywod (9%) hefyd dros ddwywaith yn fwy tebygol o dalu'r balansau na dynion (4%).
- Yn ôl ymchwil gan StepChange, roedd credyd cost uchel i dalu am hanfodion yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan fenywod (27%) na dynion (10%), ac yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan rieni (25%) na rhai heb blant (17%).
- Mae'r rhai sy'n defnyddio credyd i dalu am hanfodion yn fwy tebygol o fod â phroblemau corfforol neu iechyd meddwl; yn rhieni sengl; pobl o gymunedau

---

<sup>70</sup> Coram *Annual Childcare Survey 2022 / Annual Childcare Survey 2021* DS: Mae methodoleg Coram ar gyfer cyfrifo'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn defnyddio data awdurdodau lleol yn unig lle mae data ar gael ar gyfer y ddwy flynedd. Felly mae adroddiad 2022 yn nodi cynnydd o 3% am 25 awr o ofal ar gyfer plant 2 oed, a 3.7% am 50 awr. Uchod, rydyn ni wedi nodi'r gwahaniaeth canrannol yn y costau cyfartalog a nodwyd ar gyfer pob blwyddyn.

<sup>71</sup> Arolwg Cenedlaethol Cymru <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru>

<sup>72</sup> UK Women's Budget Group (2022) *The gendered impact of the cost of living crisis*

<sup>73</sup> Step Change (2019) *Wales in the Red*

[https://www.stepchange.org/Portals/0/assets/pdf/Wales%20in%20the%20Red\\_AW\\_Welsh.pdf](https://www.stepchange.org/Portals/0/assets/pdf/Wales%20in%20the%20Red_AW_Welsh.pdf)

<sup>74</sup> UK Women's Budget Group (2022) *The gendered impact of the cost of living crisis*

<sup>75</sup> [Helping those who use credit to make ends meet - FinCap](#) [Cyrchwyd 26.08.22]

lleiafrifol ethnig; rhentwyr ifanc (o unrhyw ddeiliadaeth); teuluoedd iau â phlant dibynnol; pobl ifanc 25–54 oed; a menywod.

- Mae credyd ar gyfer hanfodion yn cael ei wario gan amlaf ar nwyddau groser, ond hefyd ar gostau byw cynyddol (e.e. biliau ynni/dŵr, bwyd, tai, trafndiaeth) ac i ddigolledu toriadau incwm/ariannol.

## 2.6. Rolau rhywedd

- 2.6.1. Mae parhad rolau rhyweddol mewn nifer o aelwydydd yn golygu mai menywod yn aml sy'n 'amsugno sioc' tlodi, gan mai nhw sy'n tueddu i ysgwyddo'r baich o reoli cyllideb yr aelwyd a phrynu hanfodion, fel bwyd.<sup>76</sup>

## 3. Pa gamau ddylen ni eu cymryd i helpu menywod yn yr argyfwng costau byw?

- 3.1. Dylai pob cam gweithredu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol gael ei ddatblygu drwy ddefnyddio dulliau prif-frydio cydraddoldeb i sicrhau bod y gefnogaeth yn ymateb i anghenion menywod.
- 3.2. Er mwyn cefnogi merched yn y tymor byr, rydyn ni'n adleisio argymhellion yr UK Women's Budget Group i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael trwy'r system nawdd cymdeithasol<sup>77</sup>:
  - 3.2.1. Cynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant
  - 3.2.2. Diddymu'r cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn
  - 3.2.3. Trosi datblygiadau Credyd Cynhwysol yn grantiau nad oes rhaid eu had-dalu
  - 3.2.4. Cynyddu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Ceisio Gwaith a Thâl Salwch Statudol
  - 3.2.5. Cynyddu'r budd-dal plant i £50
  - 3.2.6. Rhoi diwedd ar yr amod 'dim mynediad at gronfeydd cyhoeddus'
- 3.3. Rydyn ni hefyd yn adleisio nifer o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd – *Pwysau Costau Byw*<sup>78</sup>:
  - 3.3.1. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data costau byw wedi'i ddadgyfuno ar gyfer Cymru ar gael yn rheolaidd er mwyn i ni allu deall yr effaith ar wahanol grwpiau.
  - 3.3.2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r broses o ddarparu cynlluniau cymorth ar sail prawf modd drwy system budd-daliadau i Gymru a gweithio tuag at greu porth siop un stop lle gall pobl gael gafael ar gymorth.
  - 3.3.3. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru wedi'u hachredu fel cyflogwyr Cyflog Byw gwirioneddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i weithwyr yn awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru.
  - 3.3.4. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddefnyddio ei grym o ran cyflog ac amodau sector cyhoeddus i gynyddu gwaith teg yng Nghymru, gan gynnwys: gwella tâl salwch lle mae ei angen ar gyfer gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddechrau â

<sup>76</sup> UK Women's Budget Group (2022) *The gendered impact of the cost of living crisis*

<sup>77</sup> UK Women's Budget Group (2022) *The gendered impact of the cost of living crisis*

<sup>78</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru (2022) *Pwysau Costau Byw*

threfniadau tymor hirach ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol; a chefnogi'r rhai ar y cyflogau isaf drwy setliadau cyflog.

- 3.3.5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu rhaglen ariannu cymorth brys, gan ddefnyddio mecanweithiau tebyg i raglenni cymorth COVID, er mwyn helpu'r busnesau sy'n dioddef fwyaf yn ystod cyfnod brig yr argyfwng costau byw. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf grantiau, benthyciadau cost isel neu gyfuniad o'r ddau.
- 3.3.6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio cynllun rhyddhad ardrethi busnes i gefnogi'r busnesau yr effeithir arnyn nhw fwyaf nes bod chwyddiant yn dychwelyd i lefel sy'n agos at darged Banc Lloegr.

3.4. Ymhlith mesurau pellach y dylid eu cymryd mae:

- 3.4.1. Cyflymu newidiadau i'r Cynnig Gofal Plant er mwyn ehangu pwy sy'n gymwys ar ei gyfer.
- 3.4.2. Rhoi'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar waith a chyflymu'r ymrwymiad i gyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer system o renti teg (rheoli rhent).
- 3.4.3. Creu llinell gymorth Costau Byw fel siop un stop lle gellir cael cyngor ar yr holl gymorth costau byw sydd ar gael. Dylai fod yn hawdd dod o hyd iddi a dylid rhoi cyhoeddusrwydd da iddi.

## Casgliad

Mae menywod, yn enwedig menywod o leiafrifoedd ethnig ac sy'n wynebu hiliaeth, menywod anabl ac unig rieni, yn cael eu taro'n galetach gan yr argyfwng costau byw. O ganlyniad i'r anghydraddoldeb parhaus sy'n dal i siapio ein heconomi a'n bywydau bob dydd, mae menywod yn debygol o gael eu taro'n waeth gan effeithiau'r argyfwng, ac yn fwy agored i fynd i drafferthion ariannol a thlodi.

Rhaid i'n hymateb ni i'r argyfwng ar bob lefel ystyried profiad bywyd bob dydd menywod a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu er mwyn sicrhau bod y pecynnau cymorth yn addas.

Yn y tymor byr, mae angen gweithredu ar frys i leihau'r pwysau ar incwm menywod a sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen iddyn nhw. Byddai gweithredu i leihau'r baich a ddaw yn sgil costau ynni, bwyd, gofal plant a rhent i gyd yn cyfrannu at helpu i leihau'r pwysau.

Yn y tymor hir, mae angen i ni gyflymu ein cynnydd i greu Cymru fwy cyfartal er mwyn sicrhau nad ydyn ni'n gadael yr un grwpiau'n fwy agored i niwed yn ystod argyfwng ar ôl argyfwng.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Natasha Davies  
**Arweinydd Polisi ac Ymchwil**



[Redacted email address]



[Redacted phone number]

Tomos Evans  
**Partner Polisi a Materion Cyhoeddus**



[Redacted email address]



[Redacted phone number]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



# Eitem 8

Office for  
**Budget  
Responsibility**

## **Rhagolwg trethi Cymreig**

---

Rhagfyr 2022



# Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad .....	1
	Cefndir.....	1
	Amserlen y rhagolygon.....	2
	Strwythur y ddogfen .....	3
Pennod 2	Cyfraddau treth incwm Cymru .....	5
	Cyflwyniad.....	5
	Beth yw 'cyfraddau treth incwm Cymru'? .....	5
	Methodoleg .....	8
	Rhagolwg diweddaraf .....	17
	Ansicrwyddau allweddol .....	21
	Bocs 2.1: Pwyso a mesur ein rhagolygon ynghylch cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21 .....	23
Pennod 3	Treth trafodiadau tir .....	25
	Cyflwyniad.....	25
	Beth yw 'treth trafodiadau tir'? .....	25
	Methodoleg y rhagolwg.....	26
	Penderfynyddion marchnad eiddo'r rhagolwg .....	26
	Tueddiadau mewn derbyniadau Treth Trafodiadau Tir .....	31
	Rhagolygon diweddaraf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir .....	32
	Risgiau ac ansicrwyddau .....	35
Pennod 4	Treth gwarediadau tirlenwi.....	37
	Cyflwyniad.....	37
	Beth yw'r 'dreth gwarediadau tirlenwi'? .....	37
	Methodoleg y rhagolwg.....	37
	Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi .....	41
	Risgiau ac eitemau ansicr .....	43

Atodiad A Rhagolygon sydd eu hangen ar gyfer yr addasiadau grant bloc ..... 47

Mynegai siartiau a thablau ..... 51

Mae data siartiau a thablau ar gael ar ein gwefan.

# 1 Cyflwyniad

## Cefndir

- 1.1 Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn 2010 i ddarparu dadansoddiad annibynnol ac awdurdodol o gyllid cyhoeddus y DU. Ochr yn ochr â Chyllidebau Llywodraeth y DU a datganiadau cyllidol eraill, rydym yn cynhyrchu rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus. Rydym yn cyhoeddi'r rhain yn ein Rhagolwg Economaidd a chyllidol (EFO).
- 1.2 Ym mis Rhagfyr 2016 cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Sefydlodd hyn fecanwaith ar gyfer addasu'r cyllid grant bloc y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU i adlewyrchu datganoli pwerau trethu.<sup>1</sup> Sefydlodd y fframwaith cyllidol hefyd ofyniad am ragolygon annibynnol. Dewisodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio ein rhagolygon i fodloni'r gofyniad hwn.<sup>2</sup>
- 1.3 Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Femorandwm Cydddealltwriaeth, Cylch Gorchwyl, a Fframwaith Ariannol. Yn ail hanner 2020, fe wnaethom adolygu'r trefniadau hyn ar y cyd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw wersi a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf o ragweld.<sup>3</sup> Cyhoeddwyd ein rhagolwg trethi Cymreig cyntaf (WTO) ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ym mis Rhagfyr 2019.
- 1.4 Yn yr WTO hwn, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, rydym yn disgrifio ein rhagolygon diweddaraf ar gyfer tair ffynhonnell refeniw:
- cyfraddau treth incwm Cymru;
  - treth trafodiadau tir (LTT); a
  - treth gwarediadau tirlenwi (LDT).

Rydym hefyd yn esbonio sut mae pob un wedi newid ers y rhagolwg blaenorol.

- 1.5 Fel y nodir ym Mhennod 1 o'n WTO yn 2019, rydym yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y trethi datganoledig hyn o ystyried eu rôl yn y fframwaith cyllidol. Mae rhai meysydd sydd felly y tu hwnt i gwmpas ein rôl yn cynnwys: rhagolwg macro-economaidd llawn i Gymru;

<sup>1</sup> Mae gwybodaeth fanylach am y ddeddfwriaeth berthnasol a llywodraethu ar gael ar ein gwefan.

<sup>2</sup> Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, *Darpariaeth o ragolygon treth Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol*.

<sup>3</sup> Mae'r cydadolygiad ar gael ar ein gwefan ochr yn ochr â WTO 2020.

rhagolwg ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru; ac asesiad o unrhyw gynigion polisi (yn hytrach na pholisïau datganedig).

- 1.6 Mae'r rhagolygon hyn yn gyson â'r rhagolwg canolog ar gyfer economi'r DU a chyllid cyhoeddus a gyflwynwyd yn ein *EFO* ym mis Tachwedd 2022. Mae prisiau ynni Ewropeaidd a chyfraddau llog byd-eang wedi codi'n sydyn ers ein *EFO* blaenorol ym mis Mawrth. Mae canlyniadau'r siociau byd-eang hyn ar gyfer chwyddiant ac incwm real ar draws pob rhan o'r DU yn golygu ein bod bellach yn disgwyl i economi'r DU ddisgyn i ddirwasgiad a fydd yn parhau am ychydig dros flwyddyn. Wrth i brisiau ynni a chyfraddau llog ddisgyn yn ôl trwy ail hanner y rhagolwg, mae'r economi yn gwella. Ond serch hynny, mae'r sioc pris ynni yn gadael yr economi yn sylweddol lai yn y tymor canolig nag yr oeddem yn ei ddisgwyl ym mis Mawrth, gyda chanlyniadau i'r holl brif seiliau treth. Mae ein rhagolwg cyllidol ar gyfer y DU yn adlewyrchu llacio cyllidol sylweddol yn y tymor byr i gefnogi cartrefi a busnesau gyda phrisiau ynni uchel, wedi'i ddilyn gan dynhau cyllidol sylweddol yn y tymor canolig o'r codiadau treth a'r toriadau gwariant a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU.
- 1.7 Mae'r fethodoleg a'r rhagolygon yn y WTO hwn yn cynrychioli barn gyfunol y tri aelod annibynnol o Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol yr OBR (BRC). Rydym yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y barnau sy'n sail iddynt.
- 1.8 Mae'r holl siartiau a thablau a gyflwynir yn y ddogfen hon, ynghyd â deunydd rhagolwg atodol, ar gael ar ffurf taenlen ar ein gwefan.

## Amserlen y rhagolygon

- 1.9 Er mwyn cynhyrchu'r rhagolygon a gyflwynir yn y ddogfen hon:
- Cynhyrnodd dadansoddwyr o Lywodraeth Cymru a CTheF ragolygon drafft ar gyfer trethi Cymru, gan ddefnyddio penderfynyddion a gyhoeddwyd yn ein *EFO* ym mis Tachwedd 2022.
  - Craffwyd ar y rhain gan y BRC mewn proses a gwblhawyd, yn anarferol, yn gyfan gwbl drwy ohebiaeth, oherwydd ansicrwydd ynghylch amseriad Datganiad yr Hydref.
  - Yna paratowyd rhagolygon LTT ac LDT wedi'u diweddarau gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r data derbyniadau a phrisiau tai diweddaraf. Craffwyd ar y rhain gan y BRC mewn cyfarfod ar 23 Tachwedd.
  - Ar 29 Tachwedd, fe wnaethom gwblhau ein rhagolwg trethi Cymru, gan ymgorffori effeithiau cyhoeddiadau polisi Llywodraeth y DU a Chymru hyd at ac yn cynnwys Datganiad yr Hydref, yn ogystal â data alldro derbyniadau wedi'u diweddarau a gyhoeddwyd ers hynny.

## Strwythur y ddogfen

1.10 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2:** treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend o gyfraddau Cymru.
- **Pennod 3:** treth trafodiadau tir.
- **Pennod 4:** treth gwarediadau tirlenwi.
- **Atodiad A:** crynodeb o'r rhagolygon sydd eu hangen ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc.





## 2 Cyfraddau treth incwm Cymru

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon yn:

- disgrifio **cyfraddau treth incwm Cymru** a sut y cânt eu codi ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend yn ôl band treth;
- nodi ein **methodoleg** ar gyfer rhagweld rhwymedigaethau treth incwm y DU a chyfran Cymru o'r cyfanswm hwn, cyn rhannu'r gyfran hon yn ôl band treth;
- cyflwyno ein **rhagolygon diweddaraf** ar gyfer cyfraddau Cymru ac ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm y DU; ac
- yn amlinellu rhai o'r **risgiau a'r eitemau ansicr** ynghylch ein rhagolwg cyfraddau Cymru.

### Beth yw 'cyfraddau treth incwm Cymru'?

2.2 Daeth cyfraddau treth incwm Cymru i rym ym mis Ebrill 2019. Maent yn cael eu gweinyddu a'u casglu gan Gyllid a Thollau EF. Mae pedair agwedd bwysig ar ddyluniad a gweithrediad y cyfraddau hyn yng Nghymru sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth ein rhagolygon treth incwm ledled y DU:

- Yn gyntaf, maent yn berthnasol i drethdalwyr Cymru yn unig, a ddiffinnir fel **unigolion y mae eu prif le preswyl yng Nghymru** am fwyafrif y flwyddyn dreth. Rhoddir baner 'C' i unigolion sydd wedi'u dosbarthu fel preswlydd Cymru ar eu dynodydd treth Cyllid a Thollau EF.
- Yn ail, mae cyfraddau Cymru yn cynrychioli dim ond y **10c cyntaf yn y bunt ar gyfer pob band treth**. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod y cyfraddau treth ar gyfer pob un o'r cyfraddau treth sylfaenol, uwch ac ychwanegol, sy'n disodli gostyngiad o 10c yn elfen neilltuedig Llywodraeth y DU o bob band treth. Ers 2019-20 mae'r cyfraddau hyn i gyd wedi'u gosod ar 10c, fel bod cyfraddau treth incwm cyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymru yn parhau i fod wedi'u halinio â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r dreth incwm sy'n weddill a godir gan drethdalwyr Cymru - h.y. 10c yn y bunt gan dalwyr cyfradd sylfaenol, 30c gan dalwyr cyfradd uwch a 35c gan dalwyr cyfradd ychwanegol - wedi'i chadw i Lywodraeth y DU.

- Yn drydydd, codir cyfraddau Cymru ar **incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddfidend (NSND)**. Mae incwm NSND yn cyfrif am ychydig dros 90 y cant o rwymedigaethau treth incwm ledled y DU, ac oddeutu 95 y cant o rwymedigaethau yng Nghymru.
- Yn olaf, mae cyfraddau Cymru yn cael eu hasesu ar **sail rhwymedigaethau** yn hytrach nag ar sail Cyfrifon Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y bydd ein rhagolwg o dreth incwm hunanasesu (SA) a ddefnyddir ar gyfer cyfraddau Cymru yn wahanol i'r sail arian parod a ddefnyddir yn y Cyfrifon Cenedlaethol a'n rhagolwg treth incwm SA ledled y DU, oherwydd yr oedi rhwng tynnu rhwymedigaethau a'r dreth gysylltiedig yn cael ei thalu.

**2.3** Mae Siart 2.1 yn dangos sut y byddai atebolrwydd treth incwm 2023-24 tri threthdalwr Cymreig enghreifftiol yn cael ei rannu rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru:<sup>1</sup>


- **Ar gyfer trethdalwr cyfradd sylfaenol sy'n ennill £30,000** o un ffynhonnell incwm cyflogaeth, byddai ei atebolrwydd £3,486 yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y ddwy weinyddiaeth. Mae hyn yn arwain at gyfradd treth incwm effeithiol a delir gan yr unigolyn hwn o 11.6 y cant (yn is na'r gyfradd sylfaenol o 20 y cant diolch i'r lwfans personol di-dreth o £12,570).
- **Ar gyfer trethdalwr cyfradd uwch sy'n ennill £60,000**, gyda £55,000 yn dod o gyflogaeth a £5,000 o ddfidendau o gyfranddaliadau cwmniâu, byddai 39 y cant o'u hatebolrwydd £10,782 yn ymwneud â chyfraddau Cymru a byddai 61 y cant cael ei gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, gan gynnwys yr holl £1,350 sy'n ddyledus ar eu hincwm difidend. Y gyfradd treth incwm effeithiol a delir gan yr unigolyn hwn yw 18.0 y cant. Mae'r cyfrifiadau hyn yn cynnwys effaith y penderfyniad yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU 2022 i leihau'r lwfans difidend i £1,000 o fis Ebrill 2023 (gyda gostyngiad pellach i £500 i ddilyn o fis Ebrill 2024 a fyddai'n effeithio ar y dreth a delir yn 2024-25). Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar faint o dreth sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru – gan nad yw'r gyfradd dreth ar incwm cyflogaeth wedi newid – ond drwy gynyddu'r gyfradd dreth effeithiol ar incwm difidend mae'n lleihau cyfran Cymru o'r atebolrwydd cyfan, o 41 i 39 y cant.
- **Byddai gan drethdalwr cyfradd ychwanegol sy'n ennill £250,000**, gyda £200,000 o incwm cyflogaeth a £50,000 mewn difidendau, gyfanswm atebolrwydd treth o £93,038. O hyn, dim ond 21 y cant a fyddai'n ymwneud â chyfraddau Cymru, tra byddai 79 y cant yn mynd i Lywodraeth y DU. Ar y lefel incwm hon ni fyddai trethdalwr yn derbyn unrhyw lwfans personol. Mae'r gyfran uwch ar gyfer Llywodraeth y DU yn adlewyrchu dau ffactor: yn gyntaf, byddai'r holl enillion sy'n uwch na £37,700 yn cael eu trethu ar y cyfraddau uwch neu ychwanegol lle mae cyfran Llywodraeth y DU yn llawer mwy; ac yn ail, mae gan y trethdalwr atebolrwydd o £19,282 o'u hincwm difidend, ac y mae'r cyfan yn cael ei gadw gan Lywodraeth y DU. Y gyfradd treth

<sup>1</sup> Yn ychwanegol at y paramedrau treth incwm a adroddir yn Nhabl 2.2, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r tapr lwfans personol sy'n tynnu £1 o lwfans personol yn ôl am bob £2 o enillion sy'n uwch na £100,000; y lwfans difidend o £1,000 yn 2023-24; a chyfraddau treth ar enillion difidend o 8.75 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd sylfaenol, 33.75 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch a 39.35 y cant ar gyfer trethdalwyr cyfradd ychwanegol. Mae'r esiamplau enghreifftiol hyn yn eglurhaol ac nid ydynt yn cynnwys pob agwedd ar y drefn treth incwm, er enghraifft unrhyw ddefnydd o ryddhadau i leihau atebolrwydd treth unigolyn.

incwm effeithiol a delir gan yr unigolyn hwn yw 37.2 y cant. Mae'r cyfrifiadau hyn yn adlewyrchu dau benderfyniad polisi Llywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref 2022 – gostwng y lwfans difidend (a eglurir uchod) a gostwng y trothwy cyfradd ychwanegol o £150,000 i £125,140. Mae'r newidiadau hyn yn cynyddu'r gyfradd dreth effeithiol ar gyfer y rhai sy'n talu'r gyfradd ychwanegol, ac er nad yw'n cael unrhyw effaith ar swm y dreth sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru, mae'n cynyddu'r swm sy'n ddyledus i Lywodraeth y DU, gan felly leihau cyfran Cymru o'r atebolwydd cyfan, o 22 i 21 y cant.

- 2.4** Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos pwysigrwydd cymharol enillwyr uwch ar gyfer derbyniadau treth, ond bod hyn yn llawer llai yn achos cyfraddau Cymru. Mae'r trethdalwr cyfradd uwch yn ennill dwywaith cymaint â'r trethdalwr cyfradd sylfaenol ac mae ganddo atebolwydd treth cyfan sydd dair gwaith yn fwy, ond dim ond oddeutu 2½ gwaith mor fawr yw eu hatebolwydd ar gyfer cyfraddau Cymru. Mae'r trethdalwr cyfradd ychwanegol yn ennill bedair gwaith cymaint â'r trethdalwr cyfradd uwch ac mae ganddo atebolwydd treth sydd fwy nag wyth gwaith yn fwy, ond mae eu hatebolwydd ar gyfer cyfraddau Cymru ychydig yn llai na phum gwaith yn fwy. Felly mae referniw treth Llywodraeth y DU yn fwy sensitif i newidiadau mewn incwm uchel-enillwyr nag y mae referniw Llywodraeth Cymru.

### Siart 2.1: Rhaniadau darluniadol rhwng atebolwyddau treth incwm Cymru a Llywodraeth y DU



- 2.5** Roedd cytundeb fframwaith cyllidol Rhagfyr 2016 rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU yn manylu ar sut y byddai cyfraddau Cymru yn gweithredu.<sup>2</sup> Wrth wneud hynny, roedd yn ofynnol i ni ragweld atebolwyddau treth incwm yng Nghymru, ac yn Lloegr a Gogledd

<sup>2</sup> Llywodraeth EF a Llywodraeth Cymru, Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016.

Iwerddon gyda'i gilydd, wedi'i rannu yn ôl band treth. Nid oedd hyn yn rhywbeth a oedd wedi bod yn angenrheidiol o'r blaen (neu'n bosibl).<sup>3</sup>

## Methodoleg

**2.6** Cynhyrchir ein rhagolygon treth incwm o Gymru ar sylfaen 'o'r brig i lawr'.<sup>4</sup> Y prif gamau yw:

- Yn gyntaf, rydym yn sefydlu rhagolwg **atebolwyddau treth incwm NSND y DU gyfan**.
- Nesaf, rydym yn cyfrifo'r **gyfran o atebolwyddau treth incwm NSND yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru**, gan ystyried y sylfaen dreth berthnasol yng Nghymru a sut mae hyn yn mapio i'r drefn dreth a gyhoeddir. Mae llawer o'n dadansoddiad yn edrych yn gyntaf ar gyfanswm cyfran y dreth incwm o Gymru - gan gynnwys symiau a delir gan drethdalwyr Cymru ond a neilltuwyd i Lywodraeth y DU - cyn amcangyfrif y gyfran sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Rydym hefyd wedi calibro hyn i'r gyfran alldro ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2020-21, yn seiliedig ar ail flwyddyn data alldro ar gyfer atebolwyddau treth incwm Cymru, a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ym mis Gorffennaf. Rydym yn gwerthuso ein rhagolygon ar gyfer yr ail flwyddyn honno ym Mluch 2.1.
- Yn olaf, rydym yn ychwanegu ein hamcangyfrifon o effaith **polisiau newydd** a gyhoeddwyd ers ein rhagolwg blaenorol ar atebolwyddau cyfraddau Cymru.

## Rhagolwg cyn-fesurau ledled y DU

**2.7** Rydym yn defnyddio alldro atebolwyddau treth incwm NSND cyhoeddedig diweddaraf CThEF ledled y DU ar gyfer y flwyddyn dreth fwyaf diweddar (2020-21 ar hyn o bryd) fel man cychwyn ein rhagolwg cyn-fesurau. Er mwyn rhagamcanu atebolwyddau rhwng y flwyddyn alldro honno a'r flwyddyn sydd ar y gweill, rydym yn cynhyrchu amcangyfrif yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddata derbyniadau treth misol diweddaraf CThEF – yn cynnwys y 12 mis 2021-22 a pum mis cyntaf 2022-23 yn yr achos hwn.

**2.8** Rydym yn rhagweld twf yn sylfaen treth incwm y DU yn unol â'n rhagolwg ehangach o'r economi. Y penderfynyddion allweddol yw cyflogaeth a thwf enillion cyfartalog, sy'n pennu faint o incwm llafur y gellir ei drethu, a chwyddiant CPI, a ddefnyddir i gynyddu trothwyon treth yn absenoldeb polisiau penodol eraill. Ond, yn ein rhagolwg diweddaraf, nid yw chwyddiant CPI yn cael fawr o effaith o gwbl oherwydd bod trothwyon wedi'u rhewi ar lefel y DU tan 2027-28.<sup>5</sup>

<sup>3</sup> I weld rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd, gweler Mathews, P. Papur gwaith Rhif 14: Treth incwm datganoledig: rhagweld yn ôl bandiau treth, Medi 2018.

<sup>4</sup> I weld rhagor o fanylion am ein methodoleg rhagolwg gweler Pennod 2 o'n rhagolwg trethi Cymru ym mis Rhagfyr 2019 a thudalen 'Rhagolygon treth Cymru' ar ein gwefan.

<sup>5</sup> Yn absenoldeb y penderfyniad i rewi trothwyon, byddai cyfraddau uchel o chwyddiant CPI wedi gwneud i'r trothwyon hyn gynyddu'n gynt nag enillion ac ni fyddai'n rhaid i rai pobl dalu treth incwm a byddai gan eraill gyfraddau uwch o'u treth incwm ar gyfraddau is. Byddai'r 'llusgiad cyllidol negyddol' hwn wedi gostwng y gyfradd drethi gyfartalog ar bob incwm ac wedi gostwng refereniw o'i gymharu â'r hyn sydd wedi digwydd ar ôl rhewi'r trothwyon.


- 2.9 Rydym yn rhagweld treth incwm ar lefel y DU yn unol â'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan Gyllid a Thollau EF i gasglu'r dreth. Mae treth incwm PAYE yn cyfrif am dros 80 y cant o'r refeniw, gyda bron yr holl weddill yn cael ei gasglu trwy'r system SA. Mae incwm PAYE yn cynrychioli enillion cyflogeion ynghyd â rhywfaint o incwm pensïynau, tra bod incwm yr SA yn cynnwys elw o hunangyflogaeth ac incwm o ddiidendau, tir ac eiddo, a chynilion.

## Y gyfran o atebolrwyddau treth incwm ledled y DU sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

### Cyfran Cymru o atebolrwyddau treth incwm ledled y DU

- 2.10 Gyda'n rhagolwg ar gyfer atebolrwyddau treth incwm NSND y DU, yna mae angen i ni gyfrifo'r gyfran a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru a chymhwyso hyn i ragolwg y DU. Gwneir hyn mewn dau gam. Yn gyntaf, rydym yn cyfrifo cyfran gyffredinol Cymru o dreth incwm fel y'i daliwyd gan arolwg CTheF o incwm personol (SPI). Arolwg blynyddol yw hwn sy'n seiliedig ar sampl o oddeutu 822,000 o unigolion sydd mewn cysylltiad â Chyllid a Thollau EF. Fe'i cyhoeddir ag oedi hir, ac SPI 2019-20 yw'r flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd.
- 2.11 Mae Siart 2.2 yn cymharu cyfran Cymru o atebolrwyddau treth incwm y DU â chyfran Cymru o boblogaeth y DU. Mae'r ddau wedi bod yn gostwng - cyfran Cymru o dreth incwm yn gyflymach. Efallai mai dwy nodwedd fwyaf trawiadol y siart yw cymaint is yw cyfran Cymru o dreth incwm o'i chymharu â chyfran Cymru o'r boblogaeth (2.7 yn erbyn 4.7 y cant yn 2019-20) a'r gwahaniaeth yn y gyfradd gymharol o ddirywiad yng nghyfran Cymru o dreth incwm o'i chymharu â chyfran y boblogaeth (gostwng o 13.1 yn erbyn 4.4 y cant ers 2000-01). Ar y sail hon, roedd atebolrwyddau treth incwm y pen yng Nghymru yn 2019-20 44 y cant yn is nag yn y DU gyfan (ar £1,596 yn erbyn £2,831).


### Siart 2.2: Cyfran Cymru o atebolrwyddau treth incwm a phoblogaeth y DU



Noder: Data treth ddim ar gael ar gyfer 2008-09 felly'r gyfran gyfrannol wedi'i seilio ar ryngosod o'r blynyddoedd cyfagos. Ffynhonnell: CTheF, SYG

- 2.12** Gallwn ymgorffori'n rhwydd y gwahaniaethau yn y twf poblogaeth disgwylidig yn ein rhagolygon gan ddefnyddio amcanestyniadau y SYG, ond gall fod yn fwy cymhleth i ddeall pam mae treth y pen yng Nghymru yn is nag yn y DU, ac yn dirywio mewn termau cymharol. Rydym yn defnyddio gwybodaeth PAYE (RTI) amser real yn ystod y flwyddyn, gan felly gasglu gwybodaeth rannol am rywfaent o'r deinameg diweddar a arsylwyd arno. Bydd ymchwiliad mwy trylwyr, gan gynnwys sut mae'r duedd hon wedi esblygu dros amser a sut y gallai effeithio ar gyfran Cymru o dreth incwm yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno mewn papur gwaith sydd ar y gweill.
- 2.13** Yn Siart 2.3 rydym yn defnyddio'r data SPI diweddaraf i ddangos sut y gellir priodoli'r gwahaniaeth mewn atebolrwyddau treth y pen i dri ffactor sylfaenol: cyfran y boblogaeth sy'n drethdalwyr; incwm cyfartalog y trethdalwyr hynny (wedi'i rannu'n dair ffynhonnell wahanol); a swm y dreth a delir fesul punt o incwm (h.y. y gyfradd dreth effeithiol neu ETR). Mae dadansoddi'r gwahaniaeth fel hyn yn hwyluso unrhyw ddyfarniadau a ragwelir y byddem efallai am eu gwneud ynglŷn â sut y bydd cyfran Cymru o dreth incwm yn datblygu.

**Siart 2.3: Atebolrwyddau treth incwm Cymru a'r DU fesul person yn 2019-20**




**Cyfran y boblogaeth sy'n talu treth incwm**

- 2.14** Mae'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn talu treth incwm yn is yng Nghymru nag ydyw yn y DU gyfan. Yn ôl SPI 2019-20, talodd 43 y cant o boblogaeth Cymru dreth incwm, o'i gymharu â 47 y cant o boblogaeth y DU, gan gyfrif am oddeutu 12 y cant o'r bwch rhwng atebolrwyddau treth incwm y pen Cymru a'r DU.
- 2.15** Mae dau brif ffactor sy'n debygol o esbonio'r gyfran is o drethdalwyr yn y boblogaeth yng Nghymru. Yn gyntaf, mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn is nag yn y DU gyfan. Mae Siart 2.4 yn dangos bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi bod yn gyson is na'r

gyfradd yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<sup>6</sup> Ar gyfartaledd ers 1992, mae'r gyfradd yng Nghymru wedi bod 4.1 pwynt canran yn is na'r gyfradd yn y DU gyfan. Yn 2019-20 roedd 3.5 pwynt canran yn is. Ar y mesur Arolwg o'r Llafurlu hwn, mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru hefyd wedi bod tua dwywaith mor gyfnewidiol ag yn y DU gyfan.

**2.16** Yn 2020, cyfrannodd y pandemig at ostyngiad o 2.2 pwynt canran yng nghyfradd cyflogaeth Cymru, a oedd yn fwy na'r gostyngiad o 1.6 pwynt canran yn y DU yn gyffredinol. I ddechrau, neidiodd cyflogaeth yn ôl yn gynt yng Nghymru ond mae bellach wedi dechrau dirywio unwaith eto, gyda'r gyfradd yn gostwng 1.5 pwynt canran yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2022, tra bod y gyfradd gyflogaeth yn y DU gyfan wedi codi o 0.1 pwynt canran. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n rhannol gan y cynnydd diweddar mewn anweithgarwch (a salwch hirdymor) sydd wedi cael effaith anghymesur ar Gymru. Mae'r gyfradd anweithgarwch yng Nghymru wedi cynyddu o 1.6 pwynt canran yn y flwyddyn ddiwethaf hyd at fis Medi 2022, dros bedair gwaith y cynnydd o 0.4 pwynt canran a welwyd yn y DU yn gyffredinol. At ei gilydd, mae hyn wedi mynd â'r diffyg yn y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru o'i gymharu â'r DU gyfan i'r lefel uchaf ers 20 mlynedd, sef 5.1 pwynt canran yn y tri mis hyd at mis Medi 2022. Mae'r rhagolwg ar gyfer anweithgarwch yn y farchnad lafur yn arbennig o ansicr ar hyn o bryd – yn wir, nodwyd tueddiadau yn ymwneud ag iechyd fel ffynhonnell risg allweddol i'n rhagolygon ar gyfer y DU gyfan yn ein *Rhagolwg economaidd a chyllidol (EFO)* diweddaraf. Pe bai tueddiadau yng Nghymru yn parhau i fod yn llai ffafriol na'r rheiny yn y DU gyfan, byddai hyn yn peri risg anfanteisiol i'n rhagdybiaethau am gyfran Cymru o rwymedigaethau treth incwm y DU gyfan.

### Siart 2.4: Cyfradd cyflogaeth y DU a Chymru




**2.17** Yn ail, mae codiadau olynol yn y lwfans personol di-dreth - o £6,475 yn 2010-11 i £12,500 yn 2019-20 (ac ymhellach i £12,570 yn 2021-22) - yn debygol o fod wedi tynnu

<sup>6</sup> Y gyfradd gyflogaeth yma yw cyfran y bobl 16 oed a hŷn sydd mewn gwaith â thâl.

mwy o drigolion Cymru allan o dreth incwm yn gyfan gwbl oherwydd gwahaniaethau yn y dosbarthiad enillion rhwng Cymru a'r DU gyfan. Mae Siart 2.5 yn dangos y newid cymharol yn nifer y trethdalwyr ym mhob band treth rhwng 2010-11 a 2019-20. Mae'r gostyngiad sylweddol fwy yn nifer y trethdalwyr cyfradd sylfaenol yng Nghymru (gan syrthio o bron i 30 y cant yn fwy nag yn y DU), yn adlewyrchu crynodiad mwy y sylfaen dreth yn y band hwn a'r effaith anghymesur o ganlyniad o godi'r lwfans personol.<sup>7</sup> I'r gwrthwyneb, mae'r cynnydd Cymreig yn y ddau fand treth uwch oddeutu hanner mor fawr â chynnydd y DU gyfan. Mae hyn yn amlgu'r gostyngiad mwy mewn trethdalwyr cyfradd sylfaenol yng Nghymru oherwydd bod trethdalwyr yn gadael y gyfradd sylfaenol yn hytrach na symud i fyny i'r ddau fand uwch. Mae hyn yn helpu i egluro pam y tyfodd nifer y trethdalwyr o ½ y cant yn y DU rhwng 2010-11 a 2019-20, ond y gostyngodd 5.6 y cant yng Nghymru, er gwaethaf cynnydd yn y cyfraddau poblogaeth a chyflogaeth yn y ddwy.

### Siart 2.5: Newid mewn trethdalwyr yn ôl band treth rhwng 2010-11 a 2019-20



Ffynhonnell: CThEF, OBR

### Incwm cyfartalog fesul trethdalwr

- 2.18 Y rheswm pwysicaf dros y bwlch rhwng treth y DU a Chymru y pen (fel y'i cofnodir yn yr SPI) yw bod gan drethdalwyr Cymru incwm cyfartalog is. Mae hyn yn egluro oddeutu 36 y cant o'r diffyg mewn treth y pen yn 2019-20.
- 2.19 Mae Tabl 2.1 yn dangos gwahanol ffynonellau incwm ar gyfartaledd ar draws yr holl drethdalwyr incwm. Mae'n dangos bod:

- **Daw mwyafrif helaeth incwm y trethdalwyr o swyddi cyflogaeth**, felly nid yw'n syndod bod hyn yn cynrychioli'r ffynhonnell fwyaf o wahaniaeth mewn atebolrwyddau treth fesul trethdalwr (fel y dangosir yn Siart 2.3 uchod). Yn 2019-20, roedd incymau

<sup>7</sup> Dylai'r ffynhonnell hon o wahaniaeth rhwng nifer y trethdalwyr yng Nghymru a'r DU gyfan fod yn ffactor llai pwysig yn ystod cyfnod y rhagolwg, gyda disgwyl i'r lwfans personol aros yn sefydlog ar £12,570 tan diwedd 2027-28.



cyfartalog is cyflogeion yng Nghymru i gyfrif am dros ddau draean o'r diffyg cyffredinol mewn incwm fesul trethdalwr yng Nghymru o'i gymharu â'r DU gyfan.

- **Mae'r incwm cyfartalog sydd ymhlyg yn yr SPI yn is yng Nghymru na'r DU gyfan** – o 18 y cant yn 2019-20. Mae'r gwahaniaeth yn arbennig o amlwg ymhlith yr hunangyflogedig ac incwm arall nad yw'n cynnwys pensiwn (sy'n cynnwys incwm cynilion a difidendau) lle mae incwm Cymreig 40 y cant yn is.
- **Mae'r incwm cyfartalog o bensiynau'n uwch yng Nghymru nag yn y DU gyfan** – o 10 y cant yn 2019-20. Mae hyn yn sgil y ffaith fod cyfran uwch o boblogaeth Cymru o oedran pensiwn (21 y cant yn 2020 yn erbyn 19 y cant yn y DU yn gyfan) a bod gan Gymru gyfran gymharol uwch o weithwyr sector cyhoeddus (20.7 y cant yn 2022 o'i gymharu â 16.5 y can yn y DU yn gyfan).

Tabl 2.1: Incwm cyfartalog yn 2019-20 yn ôl math

	DU	Cymru	Gwahaniaeth	
	£ y trethdalwr		£	Y cant
Inwm cyflogeion	25,841	21,103	-4,738	-18
Hunangyflogaeth ac incwm arall nad yw'n bensiwn	5,844	3,515	-2,330	-40
Incwm pensiwn	4,984	5,463	479	10
<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>36,825</b>	<b>30,074</b>	<b>-6,752</b>	<b>-18</b>

2.20 Mae Tabl 2.2, sy'n canolbwyntio'n llwyr ar incwm cyflogeion, yn dangos bod y bwch mawr hwn mewn enillion cyfartalog hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ffynonellau eraill o ddata incwm llafur. Mae cwmpas pob un yn wahanol felly nid oes modd eu cymharu'n llawn, sy'n esbonio pam mae lefel yr enillion cyfartalog a adroddir gan bob un yn wahanol. Ond er hynny, maent yn adrodd stori gyson bod incwm cyflogeion ar gyfartaledd yng Nghymru gryn dipyn yn is na'r incwm ar gyfer y DU gyfan.<sup>8</sup>

Tabl 2.2: Mesur gwahanol o enillion cyflogeion ar gyfartaledd yn 2019-20

	DU	Cymru	Gwahaniaeth	
	£ y cyflog		£	Y cant
Arolwg Cyllid a Thollau EF o incymau personol	33,776	28,137	-5,639	-17
Gwybodaeth amswer real Cyllid a Thollau EF	29,995	24,955	-5,040	-17
Arolwg blynyddol o oriau ac enillion SYG	29,782	25,882	-3,900	-13
Arolwg o'r gweithlu	33,535	28,746	-4,790	-14


### Symiau cyfartalog o dreth a delir fesul punt o incwm

2.21 Hyd yn oed ar ôl i ni gyfrif am wahaniaethau yn nifer y trethdalwyr fesul person a'r incwm cyfartalog fesul trethdalwr, mae treth incwm fesul person yng Nghymru yn llawer is nag yn y DU oherwydd bod llai o dreth yn cael ei thalu am bob punt o incwm. Roedd y gyfradd dreth effeithiol is hon yn egluro dros draean o'r gwahaniaeth yn 2019-20.

<sup>8</sup> Y gwahaniaeth yng nghyfartaledd yr SPI rhwng Tablau 2.1 a 2.2 yw oherwydd bod yr olaf ond yn rhoi cyfartaledd ar draws yr unigolion hynny sydd ag incwm cyflogaeth, tra bod y cyntaf yn gwneud hynny ar draws pob unigolyn. Mae hyn yn esbonio pam mae'r cyfartaledd yn is yn Nhabl 2.1, gan ei fod yn cynnwys rhai unigolion, er enghraifft pensynwyr, heb unrhyw incwm cyflogaeth.

**2.22** Mae Siart 2.6 yn dangos bod y gyfradd treth incwm effeithiol yng Nghymru wedi bod yn sylweddol is na'r gyfradd yn y DU yn ystod y degawd diwethaf. Mae hefyd wedi gostwng rhywfaint yn gyflymach, gan 3.5 pwynt canran rhwng yr uchafbwynt yn 2007-08 a 2019-20 o'i gymharu â 2.3 pwynt canran ar gyfer y DU gyfan. Gostyngodd y gyfradd dreth effeithiol gan 0.3 pwynt canran yng Nghymru â'r DU yn 2019-20 yn unig, felly arhosodd y bwlch rhyngddynt yn sefydlog yn hytrach na pharhau i ehangu fel yr oedd wedi gwneud ers degawd.


**Siart 2.6: Cyfraddau treth incwm effeithiol yng Nghymru a'r DU**



Noder: Data ddim ar gael ar gyfer 2008-09 felly seilir y cyfrannau cyfrannol ar ryngosod o'r blynyddoedd cyfagos.  
Ffynhonnell: CTHEF

**2.23** Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r strwythur treth incwm raddoledig sy'n rhyngweithio ag incymau cyfartalog is - er enghraifft, os yw popeth arall yn gyfartal, bydd cyfran uwch o dreth yn cael ei thalu ar y gyfradd sylfaenol yng Nghymru nag yn y DU gyfan. Ond mae hefyd yn adlewyrchu siâp y dosbarthiad incwm. Mae Siart 2.7 yn cymharu cyfanswm incwm trethdalwyr wedi'i grwpio yn ôl bandiau incwm rhwng Cymru a'r DU, fel y'i chofnodwyd yn SPI 2019-20. Mae'n dangos bod trethdalwyr sy'n ennill dros £50,000 yn cyfrif am oddeutu 40 y cant o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU, tua dau draean yn uwch na'r gyfran gyfatebol i Gymru. Adlewyrchir hyn yn y gyfran o gyfanswm y dreth a delir ym mhob band incwm, gyda 66 y cant o gyfanswm y dreth a dalir yn y DU yn dod o'r rhai sy'n ennill dros £50,000, o'i gymharu ag oddeutu 44 y cant yng Nghymru. Mae llusgiad cyllidol hefyd wedi cynyddu'r gyfran o incwm trethdalwyr o enillion o fwy na £50,000, gyda'r gyfran yn cynyddu o bron i 2 bwynt canran o 2018-19 i 2019-20 yng Nghymru a'r DU gyfan, gyda gostyngiad cyfatebol yn y gyfran a briodolir i enillion is.


## Siart 2.7: Cyfran o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU a Chymru yn ôl band incwm



### Cyfran atebolwyddau treth incwm Cymru sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

**2.24** Mae'r cam olaf wrth amcangyfrif cyfran atebolwyddau treth incwm y DU a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru yn un mecanyddol. Rydym yn amcangyfrif y gyfran o incwm NSND Cymru a fydd yn cael ei drethu ym mhob band treth ac yna'n cyfrifo'r ffracsiwn perthnasol ohono a fyddai'n dod o dan y 10c cyntaf - h.y. 50 y cant ar gyfer incwm sy'n cael ei drethu ar y gyfradd sylfaenol, ac ati. Mae Siart 2.8 yn dangos yr holl dreth incwm a gasglir oddi wrth drethdalwyr Cymru fel cyfran o gyfanswm treth incwm y DU (2.7 y cant yn 2019-20) ac mae'n ei chymharu â'r swm a ddatganolir mewn gwirionedd – h.y. y gyfran a fyddai'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru (1.2 y cant yn 2019-20).

Siart 2.8: Cyfrannau Cymru o gyfanswm rhwymedigaethau treth incwm y DU: holl dreth gan drethdalwyr Cymru yn erbyn cyfraddau treth incwm Cymru



Ffynhonnell: CThEF

### Rhagweld cyfran yr atebolwyddau treth incwm sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

2.25 O'r manau cychwyn hyn, rydym yn addasu ein rhagolwg ar gyfer cyfran gyffredinol Cymru mewn tair ffordd:

- **Enillion RTI:** rydym yn llenwi'r cyfnod rhwng 2019-20 a 2022-23 gan ddefnyddio amcangyfrif CThEF o alldro atebolwyddau treth incwm Cymru yn 2020-21 a data RTI mwy amserol ar gyfran Cymru o gyfanswm enillion cyflogeion cyn treth (h.y. y lluosom o niferoedd cyflogeion ac enillion cyfartalog) ers hynny. Yn absenoldeb gwybodaeth amserol am fathau eraill o incwm NSND, cymerwn fod y data enillion RTI yn gynrychioliadol o'r gyfanswm. Mae defnyddio'r dull hwn yn ein rhagolygon treth incwm yn yr Alban wedi awgrymu ei fod yn darparu canllaw rhesymol i symudiadau mewn cyfrannau incwm NSND.
- **Poblogaeth:** y tu hwnt i 2022-23, rydym yn cynnwys cyfraddau twf poblogaeth cymharol yn seiliedig ar amcanestyniadau diweddaraf poblogaeth yr SYG, a ryddhawyd ym mis Ionawr 2022. Mae'r rhain yn dangos bod cyfran Cymru o boblogaeth y DU yn parhau i ostwng, a byddem yn disgwyl i hyn leihau cyfran Cymru o incwm trethdalwyr.<sup>9</sup> Rydym yn addasu ar gyfer hyn gan ddefnyddio mynegai o gyfran Cymru o boblogaeth oedolion y DU, sydd wedi cael eu mireinio gennym yn ddiweddar. Rydym bellach yn cyfrifo mynegeion unigol ar gyfer y boblogaeth oedran gwaith (pobl 16 i 65 oed) a'r boblogaeth oedran pensiwn (pobl 65 oed a hŷn), gyda'r ddau'n cael eu pwysoli gan y gyfran o dreth incwm NSND a delir gan bob grŵp. Mae

<sup>9</sup> Gweler Blwch A.2 yn Atodiad A o'n hadroddiad cynaliadwyedd Cyllidol 2018 i weld trafodaeth o'r risgiau cyllidol a allai fod yn gysylltiedig â thueddiadau demograffig yng nghanhedloedd cyfansoddol y DU.

hyn yn canfod gwahanol dueddiadau o ran yr heneiddio yn y boblogaeth yn ogystal ag o ran maint cyffredinol y boblogaeth.

- Rydym yn cynnwys addasiadau ar gyfer **cymorth rhodd a'r polisïau hynny a gyhoeddwyd yn flaenorol** sydd wedi neu a fydd yn cael eu gweithredu rhwng y flwyddyn sylfaen SPI (2019-20) a diwedd ein rhagolygon ac y disgwylir iddynt effeithio ar gyfran Cymru.

**2.26** Yn olaf, rydym yn cyfrifo cyfran holl dreth incwm Cymru sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Ar gyfer y blynyddoedd a ragwelir, gwneir hyn trwy 'fodel treth bersonol' CThEF, sy'n seiliedig ar ddata SPI alldro, ac sy'n dilyn yr un fethodoleg ag a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y gyfran sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru mewn alldro.

## Costiadau polisi newydd

**2.27** Cynhyrchir ein rhagolwg ôl-fesurau trwy ychwanegu effeithiau polisïau newydd a gyhoeddwyd ers ein rhagolwg blaenorol. Mae cyflwyno cyfraddau Cymru a thelerau cysylltiedig y fframwaith cyllidol yn golygu bod angen i ni asesu effaith polisïau newydd ar bob band treth incwm unigol yn hytrach na dim ond eu cost neu gynyrrch cyfan.

**2.28** Mae llawer o'r ffynonellau ansicrwydd cyffredinol ynghylch costau polisi yr ydym yn eu hamlygu fel mater o drefn yn debygol o gael eu mwyhau wrth i ni ddadgyfuno costau yn ôl daearyddiaeth a band treth. Am y rheswm hwnnw, credwn fod dull cymharol syml yn briodol, gan ganiatáu'n ddigonol ar gyfer effeithiau anghymesur ar draws gwledydd a bandiau, er nad yw'n ceisio manwl gywirdeb ffug.

## Rhagolwg diweddaraf

### Rhagolwg treth incwm y DU

**2.29** Fel y nodir ym Mhennod 1, mae ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer treth incwm NSND y DU yn seiliedig ar y rhagolwg economaidd a gyhoeddwyd yn EFO mis Tachwedd 2022. Mae Tabl 2.3 yn nodi cyfraddau a throthwyon y DU a Chymru yr ydym wedi'u defnyddio yn y rhagolwg hwn. Yn Natganiad yr Hydref y mis diwethaf, penderfynodd Llywodraeth y DU rewi'r lwfansau personol a throthwyon cyfradd uwch am ddwy flynedd arall hyd at ddiwedd 2027-28, sy'n golygu bod bron pob un o'r cyfraddau a throthwyon yn sefydlog ar draws cyfnod llawn y rhagolwg. Yr un eithriad yw'r trothwy cyfradd uwch, a fydd, oherwydd un arall o benderfyniadau polisi Datganiad yr Hydref, yn gostwng o £150,000 i £125,140 o fis Ebrill 2023 ac yn aros yn sefydlog wedi hynny.

Tabl 2.3: Paramedrau treth incwm Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

	Y cant					
	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
<b>Cyfraddau treth Llywodraeth y DU ar gyfer trethdalwyr Cymru</b>						
Cyfradd sylfaenol	10	10	10	10	10	10
Cyfradd uwch	30	30	30	30	30	30
Cyfradd ychwanegol	35	35	35	35	35	35
<b>Cyfraddau treth incwm Cymru</b>						
Cyfradd sylfaenol	10	10	10	10	10	10
Cyfradd uwch	10	10	10	10	10	10
Cyfradd ychwanegol	10	10	10	10	10	10
<b>Cyfanswm cyfraddau treth incwm</b>						
Cyfradd sylfaenol	20	20	20	20	20	20
Cyfradd uwch	40	40	40	40	40	40
Cyfradd ychwanegol	45	45	45	45	45	45
£						
<b>Trothwyon treth (wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU)</b>						
Lwfans personol	12,570	12,570	12,570	12,570	12,570	12,700
Cyfradd uwch	50,270	50,270	50,270	50,270	50,270	50,800
Cyfradd ychwanegol	150,000	125,140	125,140	125,140	125,140	125,140

Noder: Mae celloedd wedi'u tywyllu yn cynrychioli llinellau sylfaen polisi a dybir at ddibenion rhagweld. Tybiwn y bydd cyfraddau Cymru yn aros yr un fath nes bydd Llywodraeth Cymru yn nodi fel arall.

- 2.30** Mae Tabl 2.4 yn nodi'r rhagolwg ar gyfer atebolwyddau treth incwm NSND y DU sy'n sail i'n rhagolwg ar gyfer cyfraddau Cymru. Bu adferiad cryf yn atebolwyddau treth incwm NSND ledled y DU yn 2021-22, gan gynyddu gan £27 biliwn (15 y cant) o'i gymharu â 2020-21, er bod hyn £1.1 biliwn (0.5 y cant) yn is na'r rhagolwg yn ein EFO ym mis Mawrth 2022. Mae'r newid ers mis Mawrth yn cael ei egluro'n glir gan y diwygiad tuag i lawr o'i gymharu ag alldro'r flwyddyn flaenorol (sy'n gostwng y rhagolwg mewn blynnyddoedd i ddod o £5.0 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd). Mae hyn yn drech na'r diwygiad tuag i fyny o ran y twf yn atebolwyddau'r flwyddyn flaenorol (o £3.1 biliwn, ond mae'n cael ei sbarduno'n bennaf gan dwf cadarn iawn mewn taliadau bonws a gododd dderbyniadau PAYE yn ystod misoedd olaf 2021-22).
- 2.31** Mae'r diwygiadau tuag i fyny yn ein rhagolwg treth incwm cyn mesurau yn parhau drwy 2022-23 (gan adlewyrchu ein derbyniadau alldro uwch) a 2023-24 (diolch i dwf cymharol uchel mewn cyflogau nominal). Ond ers hynny, y sioc prisiau tanwydd ar gynhyrchiant yr economi gyfan a thwf cyflogau yn sgil hynny sy'n arglwyddiaethu, i'r graddau fod referniw yn ein rhagolwg cyn y mesurau wedi cael ei ddiwygio tuag i lawr gan symiau cynyddol uwch o 2024-25 ymlaen.
- 2.32** Mae polisiau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ers mis Mawrth yn lliniaru'r diwygiad tuag i lawr yn y rhagolygon cyn mesurau, gan godi £11.0 biliwn erbyn 2027-28 a thua £6.5 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Dyma rai o'r pethau sydd wedi cynyddu incwm fwyaf:

- Y penderfyniad i **beidio â thorri'r gyfradd sylfaenol o 20 i 19 y cant**, a oedd i fod i ddod i rym o fis Ebrill 2024 (fel y cyhoeddwyd yn Natganiad y Gwanwyn) sydd wedi cael yr effaith unigol fwyaf, gan godi £5.9 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2024-25 ymlaen.
- Y penderfyniad i **gael gwared ar yr ardoll iechyd a gofal cymdeithasol** a oedd i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2023. Mae hyn yn cynyddu atebolrwyddau treth incwm gan symiau sy'n codi i £2.5 biliwn y flwyddyn yn 2027-28 (ac yn costio llawer mwy na'r refeniw a gollir o'r ardoll ei hun). Mae'r enillion treth incwm o'r mesur hwn yn dod drwy ei ganlyniadau ymddygiadol anuniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys bod cyflogau'n uwch nag y byddent wedi bod pe bai'r ardoll wedi mynd yn ei blaen (sydd heb ei wahanu yn Nhabl 2.4) a'r cymhelliad llai i ymgorffori, gan hybu treth incwm a NICs ar draul treth corfforaeth.
- **Mae mesurau eraill** yn cynyddu derbyniadau gan symiau sy'n codi i £2.4 biliwn erbyn 2027-28, a'r mwyaf arwyddocaol yw yr estyniad i gyfnod rhewi'r lwfans personol a'r trothwyon cyfraddau uwch, a gostwng y trothwy cyfradd ychwanegol.

Tabl 2.4: Rhagolwg y DU gyfan o atebolrwyddau treth ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend

	£ biliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	186.7	208.4	226.7	238.2	245.2	259.4	272.8	
Rhagolwg Rhagfyr	180.3	207.3	224.7	237.9	245.8	254.8	267.0	282.5
<b>Newid</b>	<b>-6.4</b>	<b>-1.1</b>	<b>-2.0</b>	<b>-0.2</b>	<b>0.5</b>	<b>-4.6</b>	<b>-5.8</b>	
<i>ac o hyn:</i>								
Aliniad alldro NSND y DU		-4.2	-4.6	-4.8	-5.1	-5.4	-5.6	
Rhagolwg cyn-fesurau		3.1	2.1	2.8	-2.6	-7.9	-9.3	
Gwyrddroi'r toriad yn y gyfradd sylfaenol		0.0	0.0	0.0	5.8	5.8	5.9	
Gwyrddroi'r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol		0.0	0.5	1.3	1.6	2.0	2.3	
Polisiâu eraill y DU		0.0	0.0	0.5	0.7	0.9	1.0	

## Cyfran yn ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

**2.33** Mae tabl 2.5 yn dangos ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfran Cymru a'r newid ers mis Mawrth. Mae'n cael ei gyflwyno ar sail cyn-fesurau gan fod effaith mesurau polisi newydd yn cael ei gipio yn nhermau arian parod yn hytrach nag ar sail cyfran. Nid yw felly'n cynnwys effaith peidio â mynd ymlaen gyda'r toriad i gyfradd sylfaenol treth incwm yn 2024-25 ar y gyfran. Ar y sail hon, ychydig newid fu i gyfran Cymru ers ein rhagolwg ym mis Mawrth, hyd at 0.01 pwynt canran ar gyfartaledd. Mae hynny'n adlewyrchu diwygiad bach tuag i lawr yn 2022-23 wedi ei ddilyn gan ddiwygiadau tuag i fyny o 2024-25 ymlaen. I ddechrau, mae hyn yn adlewyrchu'r data RTI diweddaraf yn ystod y flwyddyn, sy'n mynd ati i leihau'r gyfran yn 2022-23. Ond, yn y pendraw, mae hyn yn cael ei wrthbwysio gan ddiwygiadau i gyfraddau poblogaeth gan yr SYG, sy'n codi'r gyfran a'i gymharu â mis Mawrth.

Tabl 2.5: Cyfran yr atebolrwyddau cyn-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru

	Canran o gyfanswm y DU ar gyfer rhwymedigaethau nad ydynt yn gynilion, nad ydynt yn ddifidend							
	Alldro	Rhagolwg						
		2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	1.17	1.16	1.17	1.18	1.21	1.21	1.21	
Rhagolwg Rhagfyr (cyn-fesurau)	1.19	1.16	1.16	1.18	1.23	1.22	1.22	1.22
<b>Newid</b>	<b>0.02</b>	<b>0.00</b>	<b>-0.01</b>	<b>0.00</b>	<b>0.02</b>	<b>0.02</b>	<b>0.01</b>	
<i>Memo: Mynegai poblogaeth</i>		100.0	100.0	99.9	99.9	99.8	99.7	99.6
<i>Memo: Mynegai RTI (2020-21 = 100)</i>		97.5	97.4	97.4	97.4	97.4	97.4	97.4
<i>Memo: Mynegai cyfun</i>		97.5	97.4	97.3	97.2	97.1	97.1	97.0

## Y rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru

**2.34** Mae Tabl 2.6 yn nodi ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a dadansoddiad o'r newidiadau ers mis Mawrth, tra bod Tabl 2.7 yn dangos y rhagolwg yn ôl band treth. Rydym wedi diwygio'r rhagolwg hwn i lawr ym mhob blwyddyn o £55 miliwn (1.9 y cant) ar gyfartaledd. I raddau helaeth, mae hyn yn adlewyrchu diwygiadau i lawr i'n rhagolwg ar gyfer y DU gyfan, gyda mân ddiwygiadau yn sgil y newidiadau yn y gyfran Gymreig a ddisgrifir uchod.

**2.35** O ran polisiau Llywodraeth y DU, mae peidio â bwrw ymlaen â'r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu'r rhagolwg o £13 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd, gan godi i £24 miliwn yn 2027-28. Mae rhewi'r trothwy treth incwm am ddwy flynedd arall yn codi £27 miliwn arall yn 2027-28. Nid yw canslo'r toriad cyfradd sylfaenol yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar refeniw NSND ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ei fod ond yn effeithio ar y gyfran a gadwyd yn ôl o'r gyfradd sylfaenol, gan olygu nad oes effaith ar gyfradd 10c Cymru ar gyfer talwyr y gyfradd sylfaenol (er ei fod yn cael effeithiau bach anuniongyrchol).

Tabl 2.6: Cyfraddau treth incwm Cymru

	£ miliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth wedi'i ailddatgan	2,181	2,412	2,645	2,805	2,961	3,134	3,291	
Rhagolwg Rhagfyr	2,140	2,401	2,604	2,795	2,927	3,027	3,162	3,348
<b>Newid</b>	<b>-41</b>	<b>-12</b>	<b>-40</b>	<b>-9</b>	<b>-34</b>	<b>-107</b>	<b>-129</b>	
<i>ac o hyn:</i>								
Modelu cyfran Cymru		1	-12	8	46	39	35	
Aliniad alldro NSND y DU		-49	-53	-57	-62	-66	-69	
Rhagolwg NSND y DU a newidiadau eraill		36	25	33	-30	-94	-111	
Effeithiau polisiau Llywodraeth y DU		0	0	6	13	15	16	



Tabl 2.7: Rhagolwg cyfraddau treth incwm Cymruo atebolwyddau treth ar incwm NSND yn ôl band treth

	£ miliwn							
	Alldro	Rhagolwg						
		2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
<b>Rhagolwg Rhagfyr</b>	<b>2,140</b>	<b>2,401</b>	<b>2,604</b>	<b>2,795</b>	<b>2,927</b>	<b>3,027</b>	<b>3,162</b>	<b>3,348</b>
ac o hyn:								
Cyfradd sylfaenol	1,843	2,040	2,211	2,375	2,490	2,573	2,677	2,824
Cyfradd uwch	251	299	327	350	363	377	404	436
Cyfradd ychwanegol	46	61	66	71	74	77	82	88
	Y cant							
Cyfradd sylfaenol	86.1	85.0	84.9	85.0	85.1	85.0	84.6	84.3
Cyfradd uwch	11.7	12.5	12.6	12.5	12.4	12.5	12.8	13.0
Cyfradd ychwanegol	2.2	2.5	2.5	2.5	2.5	2.6	2.6	2.6

## Ansicrwyddau allweddol

**2.36** Mae sawl ffynhonnell ansicrwydd ynghylch ein rhagolwg ar gyfer atebolwyddau treth incwm sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymreig. Byddwn yn crynhoi rhai o'r ffynonellau pwysicaf yma.

### Cyflogaeth ac anweithgarwch

**2.37** Ar ôl dechrau ar y dirwasgiad sydd o'n blaenau 0.4 y cant (142,000 o bobl) yn is na'i lefel cyn y pandemig, disgwylir i gyflogaeth ledled y DU syrthio 0.4 y cant ymhellach (124,000 o bobl) erbyn chwarter cyntaf 2024 wrth i allbwn ostwng yn ystod y dirwasgiad. Mae'r rhagolwg gwan ar gyfer cyflogaeth hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod maint y llafurlu yn llai nag yr oeddem yn ei ddisgwyl cyn y pandemig (fffenomenon yr awgryma Siart 2.4 uchod sydd yn fwy amlwg yng Nghymru na'r DU gyfan). Mae nifer y bobl ledled y DU sy'n nodi eu bod yn anweithgar oherwydd salwch hirdymor wedi codi o 378,000 ers cyn y pandemig, gyda chynnydd arbennig o fawr ymhlith grwpiau oedran hŷn. Yn ehangach, gellir olrhain nifer o ddatblygiadau niweidiol yn ein rhagolygon ar gyfer y DU yn ôl i faterion yn ymwneud ag iechyd. Mae anweithgarwch yn y farchnad lafur wedi codi, ac felly hefyd llwythi achosion budd-daliadau yn ymwneud ag iechyd ac anabledd. Gyda'r DU wedi dioddef pedwaredd don o heintiadau a derbyniadau i'r ysbyty yn 2022, mae nifer yr achosion o Covid hir sy'n cael eu hunan-adrodd yn parhau i fod yn uchel, ac mae rhestr aros y GIG ar gyfer triniaethau dewisol yn parhau i godi, mae'n ymddangos bod risgiau economaidd a chyllidol yn sgil datblygiadau iechyd wedi codi ers mis Mawrth.

### Twf mewn cynhyrchiant ac enillion cyfartalog

**2.38** Mae ein rhagolygon treth incwm ar gyfer y DU gyfan a Chymru yn sensitif i'r rhagdybiaethau rydym yn eu gwneud am gynhyrchiant llafur, sef y brif ffactor sy'n pennu twf real mewn enillion. Gyda'r dirwasgiad yn debyg o gael effaith ar fuddsoddiad busnes a 'chynhyrchiant ffactor gyflawn' (fel y mae'n cael ei fesur) yn cael ei ddal yn ôl gan brisiau ynni uwch, mae'r rhagolwg ar gyfer twf mewn cynhyrchiant llafur ac enillion real yn wan.

Mae risgiau i bob ochr o'r rhagolygon hyn. Ar yr ochr gadarnhaol, gallai diwedd glo buan i ryfel Rwsia yn Wcráin a fyddai'n sefydlogi marchnadoedd ynni Ewrop ac yn gostwng prisiau fwydo yn ôl yn gymharol gyflym i leihau pwysau chwyddiant ac achosi cynnydd llai mewn cyfraddau llog, gan ganiatáu i'r economi ac enillion adfer yn gyflymach. A gan mai prisiau ynni uwch yw'r ffactor allweddol sy'n egluro pan fod y twf yn y cynhyrchedd ffactor gyflawn dros y pum mlynedd nesaf ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd gwan iawn ar ôl yr argyfwng ariannol ac yn llawer gwanach na'r cyfartaledd cyn yr argyfwng ariannol, byddai prisiau ynni is hefyd yn rhoi hwb i'r rhagolygon tymor canolig. Yn erbyn hynny, gallai'r rhyfel ddwysau a gallai prisiau ynni barhau i fod yn uchel ac yn anwadal, gan effeithio ymhellach ar y rhagolygon. A daw'r risgiau hyn yng nghyd-destun yr ansicrwydd parhaus o amgylch y rhagolygon ar gyfer twf mewn cynhyrchiant a thwf mewn enillion sydd wedi bod yn nodwedd o'r ddegawd ar ôl yr argyfwng ariannol.

## Data sylfaenol yr Arolwg o incymau personol

**2.39** Mae cynrychiolaeth y dosraniadau daearyddol ac incwm a adroddir yn y data sylfaenol SPI yn bwysig ar gyfer datblygu ein rhagolygon. Dyluniwyd yr SPI i fod yn gynrychioliadol ar lefel y DU, ond nid yw'r sampl wedi'i haenu yn ôl daearyddiaeth (h.y. mae meintiau sampl llai ym mhob ardal ddaearyddol yn golygu ei bod yn debygol o fod yn llai cynrychioliadol ar y lefelau hynny nag y mae ar lefel y DU). Yn y fersiwn ddiweddaraf, roedd y cyfnod hyder o amgylch amcangyfrif SPI o rwymedigaethau treth ar lefel y DU yn llai na 0.6 y cant, ond i Gymru roedd yn 3.6 y cant sef mwy sylweddol. Mae amrywiad samplu - yn arbennig oherwydd y nifer fach o arsylwadau trethdalwyr incwm uchel yng Nghymru - yn ffynhonnell bosibl arall o wallau, er bod gan yr SPI faint sampl cymharol fawr ar y cyfan ac mae wedi'i gynllunio i or-samplu trethdalwyr ag incwm uwch. Er bod gennym bellach y ddwy flynedd o ddata alldro ar gyfer atebolrwyddau treth incwm Cymru ac felly gallwn nawr galibro ein rhagolygon i'r gyfran alldro, mae ansicrwydd ynghylch data mewnbyn ein rhagolwg cyfraddau Cymru yn parhau i fod yn risg i'r rhagolwg.

## Perfformiad cymharol sylfeini treth incwm Cymru a'r DU

**2.40** Fel y disgrifir yn y bennod hon rydym yn defnyddio ein rhagolygon macro-economaidd ar lefel y DU gyda dim ond ychydig o addasiadau i ragweld atebolrwyddau treth incwm Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ein rhagdybiaeth bod gwahaniaethau yn y dyfodol rhwng twf yn unrhyw un o'r newidynnau sy'n pennu'r sylfaen dreth yng Nghymru a'r DU gyfan yr un mor debygol o fynd i un cyfeiriad â'r llall, felly rhagdybiaeth ganolog yw eu bod yn symud yn gyfochrog. Fel y dengys ein dadansoddiad o atebolrwyddau treth fesul person, mae gwahaniaethau mawr rhwng Cymru a'r DU gyfan ar hyn o bryd sydd wedi bod yn cynyddu'n gyson, os yn gymedrol yn unig, dros amser. Byddai dargyfeirio pellach neu gyfnod cydgyfeirio yn cynrychioli risgiau i lawr neu i fyny i'n rhagolwg. Byddwn yn cyflwyno ymchwiliad manwl i'r tueddiadau hyn a'r effeithiau y maent yn eu cael ar ein rhagolygon mewn papur gwaith sydd ar ddod ar dreth incwm ddatganoledig. Bydd hyn yn helpu i lywio dyfarniadau rhagolwg yn y dyfodol mewn perthynas â thueddiadau yng nghyfran Cymru o dreth incwm dros amser.

- 2.41 Mae'r addasiad allweddol a wnawn ar hyn o bryd yn ymwneud â chyfraddau gwahanol o dwf yn y boblogaeth, gyda rhaniad syml rhwng oedolion oedran gwaith ac oedolion oedran pensiwn sy'n ein galluogi i wneud lwfans pellach ar gyfer gwahaniaethau yn y gyfradd y mae'r boblogaeth yn heneiddio arni yng Nghymru a'r DU gyfan. Felly rydym yn dal effaith niferoedd cyfnewidiol y trethdalwyr, ac, ar lefel uchel, newidiadau cysylltiedig ag oedran yn nosbarthiad trethdalwyr ac incwm cyfartalog ar draws y gwahanol grwpiau oedran. Byddwn yn ystyried yr achos dros fireinio hyn ymhellach yn y dyfodol.

### Bocs 2.1: Pwyso a mesur ein rhagolygon ynghylch cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21

Cyhoeddodd CThEF ddata alldro ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2020-21 ym mis Gorffennaf 2022. Mae asesu perfformiad ein rhagolygon ar ôl eu cwblhau yn bwysig ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd, ac yn ein helpu i ddeall a chanfod ffyrdd o'u gwella ar yr un pryd. Byddwn yn rhoi asesiad manylach yn ein diweddariad ar y *Rhagolwg trethi Cymreig* ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol yn gynnar y flwyddyn nesaf, felly trafodaeth ragarweiniol a geir yma. Dyma ail flwyddyn gweithredu cyfraddau Cymru ac felly'r ail flwyddyn y gallwn asesu ein perfformiad ar ei chyfer. Mae Tabl A yn dangos y data alldro a'r pum rhagolwg a gynhaliwyd gennym cyn cyhoeddi'r data hwnnw – ar gyfer cyfraddau Cymru a'r cyn-fesurau ar gyfer cyfran Cymru o dreth incwm NSND y DU.

Tabl A: Rhagolygon olynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a chyfran yr atebolrwydd cyn-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru (2020-21)


	Alldro	Rhagolwg				
		Maw 2020	Rhag 2020	Maw 2021	Rhag 2021	Maw 2022
WRIT (£ miliwn)	2,140	2,170	2,045	2,093	2,127	2,181
Gwahaniaeth o'r alldro (£ miliwn)		30	-95	-47	-12	41
Cyfran Cymru (y cant)	1.19	1.16	1.13	1.18	1.17	1.17
Gwahaniaeth o'r alldro (y cant)		-0.03	-0.06	-0.01	-0.02	-0.02

Mae Siart A yn dadansoddi'r gwahaniaethau cyffredinol rhwng yr un pum rhagolwg a'r alldro ar gyfer 2020-21 ar sail y rheini sy'n ymwneud â rhagolwg NSND y DU a'r rheini sy'n deillio o'n hamcangyfrif o gyfran y cyfanswm sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru. Ar lefel uchel, mae'n dangos ein bod wedi tanamcangyfrif cyfran Cymru ym mhob rhagolwg, ond roedd y camgymeriadau mewn perthynas â'n rhagolwg o NSND y DU yn cynnwys goramcangyfrifon a thanamcangyfrifon. Mewn pedwar o'r pum rhagolwg, roedd y camgymeriad o ganlyniad i ragolwg NSND y DU yn bwysicach o ran maint na'r camgymeriad o ganlyniad i gyfran Cymru. Ar sail fesul rhagolwg-wrth-ragolwg:

- Ym mis **Mawrth 2020**, roeddem wedi goramcangyfrif derbyniadau 1.4 y cant, ond roedd y goramcan o ran rhagolwg NSND y DU yn esbonio hyn. Roeddem wedi goramcangyfrif atebolrwydd ar sail y DU gyfan 4.1 y cant, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad mewn derbyniadau oherwydd y pandemig o'i gymharu â'r rhagolwg olaf hwn cyn y pandemig. Roedd hyn yn gwrthbwyso ein tanamcangyfrif o gyfran Cymru.

- Ym mhob un o'r **tri rhagolwg nesaf**, gwnaethom danamcangyfrif derbyniadau, er bod y symiau'n lleihau. Yn ystod y ddau gyntaf, roedd hyn yn seiliedig ar danamcangyfrif cyfran Cymru ac atebolwydd y DU gyfan. Un o'r ffactorau y tu ôl i hyn oedd cadernid annisgwyl derbyniadau'r DU gyfan yn ystod y pandemig, diolch yn rhannol i gymorth ariannol ar raddfa fawr drwy'r cynllun ffyrlo, cymorth incwm hunangyflogaeth, a gwariant adrannol uwch. Ym mis Rhagfyr 2021, cafodd hyn ei egluro gan amcangyfrif rhy isel o gyfran Cymru, ynghyd ag amcangyfrif rhy uchel o atebolwydd y DU gyfan.
- Yn ein rhagolwg ym mis **Mawrth 2022** roeddem wedi goramcangyfrif derbyniadau 2020-21 1.9 y cant o ganlyniad i oramcangyfrif uwch o atebolwydd y DU gyfan nag yn y rhagolwg blaenorol.

**Siart A: Gwahaniaethau olynol o ran y rhagolygon ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru (2020-21)**



Ffynhonnell: CThEF, OBR

Rydym yn parhau i fireinio ein rhagolygon ar gyfer cyfran Cymru drwy ddefnyddio data RTI yn ystod y flwyddyn, sy'n sail i'n rhagolwg ar gyfer y DU gyfan a'n hamcangyfrifon o gyfran Cymru. Rydym hefyd wedi mireinio ein mynegai 'poblogaeth' drwy wahaniaethu rhwng y boblogaeth oedran gweithio a'r boblogaeth oedran pensiwn, gan bwysoli pob un yn ôl eu cyfran o dreth incwm NSND. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu rhoi cyfrif am wahanol dueddiadau o ran heneiddio yn y boblogaeth, yn ogystal â maint cyffredinol y boblogaeth.

## 3 Treth Trafodiadau Tir

### Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon:

- yn disgrifio cyflwyno'r **dreth trafodiadau tir** yng Nghymru ac yn ei chymharu â threfn treth dir y dreth stamp (SDLT) sydd ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon;
- yn amlinellu ein **methodoleg ar gyfer cynnal rhagolwg o'r Dreth Trafodiadau Tir** ac yn edrych ar dueddiadau mewn **prisiau eiddo a thrafodiadau** yng Nghymru sy'n sbarduno twf yn sylfaen drethu'r Dreth Trafodiadau Tir;
- yn cyflwyno ein **rhagolygon diweddaraf** ac yn egluro sut maent wedi newid ers y rhagolygon a gyhoeddwyd yn ein *Rhagolwg economaidd ac ariannol* ym mis Mawrth 2022; ac
- yn trafod rhai o'r prif **risgiau ac ansicrwydd** sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon hyn.

### Beth yw'r 'dreth trafodiadau tir'?

3.2 Mae'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) wedi disodli treth dir y dreth stamp (SDLT) yng Nghymru ers mis Ebrill 2018.<sup>1</sup> Treth trafodiad *ad valorem* yw hon a godir ar drosglwyddo eiddo. Caiff ei thalu gan y prynwr, ond pris y tŷ sy'n pennu pa bryd mae'r dreth yn berthnasol felly mae'r baich yn syrthio ar y gwerthwr mewn gwirionedd.<sup>2</sup>

3.3 Mae gan y Dreth Trafodiadau Tir lawer o'r un nodweddion â Threth Dir y Dreth Stamp, gan gynnwys trin eiddo preswyl ac eiddo masnachol yn wahanol, trothwy di-dreth a thâl ychwanegol ar brynu eiddo preswyl ychwanegol. Ond mae rhai gwahaniaethau nodedig: mae gan y Dreth Trafodiadau Tir gyfraddau a throthwyon gwahanol; nid yw'n cynnwys rhyddhad i'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf; ac mae'n cael ei chasglu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn hytrach na gan CTheF.

<sup>1</sup> Mae'r ddwy dreth yn seiliedig yn fras ar y 'dreth stamp' hanesyddol, un o'r dulliau trethu hynaf a gyflwynwyd yn wreiddiol ar ystod o gynhyrchion yn 1694. Roedd y dreth wreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau cyfreithiol a oedd yn gysylltiedig â thrafodiad yn cael eu dilysu drwy gyfrwng 'stamp' ffisegol. Cyflwynwyd Treth Dir y Dreth Stamp yn lle'r dreth stamp ym mis Rhagfyr 2003.

<sup>2</sup> Best, M. a Kleven, H., *Housing market responses to transaction taxes: Evidence from notches and stimulus in the U.K.*, Mehefin 2017.

## Methodoleg y rhagolwg

3.4 Mae'r fethodoleg ar gyfer llunio ein rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn cynnwys tri cham.<sup>3</sup> Sef:

- Yn gyntaf, rydym yn llunio **amcangyfrif canol blwyddyn** sy'n defnyddio data alldro misol ar dderbyniadau gan Awdurdod Cyllid Cymru fel man cychwyn. Fel arfer, rydym yn grosio derbyniadau'r flwyddyn hyd yma drwy dybio bod gweddill y flwyddyn yn dilyn llwybr tebyg i'r blynyddoedd blaenorol, gan ei chwyddo yn ôl yr angen ar sail gwybodaeth am berfformiad yr economi a'r farchnad eiddo.
- Nesaf, rydym yn llunio ein **rhagolwg cyn-fesurau**, gan ddefnyddio pedwar model 'biniau prisiau' ar wahân – un yr un ar gyfer prif gyfraddau preswyl, y gordal eiddo ychwanegol, gwerthiannau masnachol a phrydlesi masnachol.<sup>4</sup> Mae'r modelau'n darparu trafodiadau wedi'u crynhoi mewn 'biniau' cymharol fach, gan gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus yn ôl pris cyfartalog pob bin, ac yna'n rhagamcanu hynny'n unol â'n rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau.<sup>5</sup>
- Yn olaf, rydym yn ychwanegu amcangyfrifon o effeithiau unrhyw **fesurau polisi newydd** i gynhyrchu ein rhagolygon ar ôl mesurau.

## Penderfynyddion marchnad eiddo'r rhagolwg

3.5 Heb os, sbardun pwysicaf ein rhagolwg ar gyfer derbyniadau Treth Trafodiadau Tir dros y tymor canolig yw ein rhagolwg ar gyfer twf yng ngwerth trafodiadau eiddo, sydd yn ei dro yn adlewyrchu rhagdybiaethau ynghylch y rhagolygon ar gyfer prisiau eiddo a nifer y trafodiadau. Mae gweithgarwch ym marchnadoedd eiddo Cymru a'r DU wedi bod yn gyfnewidiol unwaith eto eleni. Mae hyn yn adlewyrchu effeithiau hirbarhaol y pandemig, gan gynnwys yr 'arbedion gorfodol' a oedd wedi cronni yn ystod y cyfnod hwnnw sy'n parhau i lifo i brisiau tai, a'r ymatebion ymddygiadol i seibiannau treth trafodiadau â chyfyngiad amser Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r natur gyfnewidiol hon hefyd yn adlewyrchiad o ddatblygiadau economaidd mwy diweddar, fel y cynnydd sydyn yn chwyddiant CPI a'r cynnydd cysylltiedig yng nghyfraddau banciau a morgeisi.

### Prisiau eiddo

3.6 Mae Siart 3.1 yn dangos bod **chwyddiant prisiau tai** yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 wedi cyrraedd uchafbwynt ym Mehefin 2021 sef 13.2 y cant yn y DU a 17.2 y cant yng Nghymru. Yn y ddau achos roedd hyn wedi cyd-daro â diwedd seibiant treth y naill Lywodraeth a'r llall (y ddau yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021). Gostyngodd chwyddiant prisiau tai ym mis Gorffennaf 2021, cyn sefydlogi yn ystod gweddill 2021-22. Mae chwyddiant prisiau tai wedi parhau i amrywio eleni, gyda chyfradd y cynnydd yn arafu yn


<sup>3</sup> I gael rhagor o fanylion am fethodoleg y rhagolwg, edrychwch ar Bennod 3 ein *Rhagolwg Trethi Cymreig* ym mis Rhagfyr 2019 ac ar y dudalen 'Rhagolwg trethi Cymreig' ar ein gwefan.

<sup>4</sup> Mae'r modelau hyn yn cael eu gweithredu ar ein rhan gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru, ond mae rhagdybiaethau a dyfarniadau sylfaenol y rhagolwg yn rhai gan Bwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol yr OBR.

<sup>5</sup> Mae'r fethodoleg ar gyfer gwneud rhagolwg o'r rhain wedi'i nodi yn nhudalennau 'Gwybodaeth fanwl' ein gwefan.

ystod y ddau fis diwethaf, er ei bod yn gymharol is yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw. Mae'r gostyngiad a welwyd mewn prisiau ar ôl y seibiant ym mis Gorffennaf 2021 wedi dylanwadu o ran y codiadau sydyn yn y flwyddyn hyd Gorffennaf 2022 (o 15.2 a 16.9 y cant yn y DU a Chymru yn y drefn honno). Gan fod cyfraddau morgesei wedi cynyddu'n fawr ym mis Medi a mis Hydref, rydym yn disgwyl bod prisiau tai wedi cyrraedd eu hanterth ac felly bydd chwyddiant prisiau tai o un flwyddyn i'r llall yn parhau i ostwng.

### Siart 3.1: Chwyddiant prisiau tai: Cymru o'i chymharu â'r DU gyfan



Ffynhonnell: SYG

- 3.7** Roedd **prisiau eiddo masnachol** (fel y'u mesurir gan bris cyfartalog trafodiadau a gofnodwyd gan yr awdurdodau treth perthnasol) wedi gostwng 5.3 y cant yng Nghymru yn hanner cyntaf 2022-23, ond yn y DU roeddent wedi codi 4.5 y cant o'i gymharu â blwyddyn ynghynt.


### Trafodiadau eiddo

- 3.8** Nodwedd amlwg yn **nhrafodiadau eiddo preswyl** misol 2021-22 oedd y cynnydd sydyn a welwyd ym mis Mehefin 2021 (yng Nghymru a'r DU) ynghyd a chynnydd sydyn arall ar draws y DU ym mis Medi. Mae'r rhain yn adlewyrchu rhagflaenu (dwyn ymlaen) trafodiadau cyn diwedd seibiant treth dros dro y ddwy Lywodraeth ar 30 Mehefin, ac estyniad dilynol, ond llai hael, Llywodraeth y DU o dri mis (a ddaeth i ben ar 30 Medi).<sup>6</sup> Yn y ddau achos, cafodd y trafodiadau a ddygwyd ymlaen eu gwrthbwysu'n rhannol gan lai o drafodiadau yn y misoedd dilynol. Yn gyffredinol, roedd y trafodiadau yn 2021-22 yn 15.7 y cant a 29.0 y cant yn uwch na 2020-21 yn y DU a Chymru, yn y drefn honno, yn bennaf oherwydd adferiad y farchnad ar ôl y pandemig a rhyddhau'r galw oedd wedi bod yn cronni.

<sup>6</sup> Cafodd trothwy cyfradd sero Treth Dir y Dreth Stamp ei godi i £500,000 tan 30 Mehefin 2021, ond ar gyfer yr estyniad i 30 Medi 2021, cafodd ei ostwng i £250,000, er bod hynny'n dal yn uwch na'r trothwy arferol o £125,000.

3.9 Mae trafodiadau yn y flwyddyn hyd yma yn 2022-23 i lawr 13.8 y cant yn y DU a 14.4 y cant yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'r rhagolygon economaidd gwannach a'r cyfraddau morgais cynyddol, a'r nifer anarferol o uchel o drafodiadau yn 2021-22 sy'n sylfaen ar gyfer cymharu.

Siart 3.2: Trafodiadau eiddo preswyl




Ffynhonnell: CTheF

3.10 Mae trafodiadau eiddo masnachol yng Nghymru wedi adlewyrchu'r rheini yn y DU gyfan i raddau helaeth yn ystod 2021-22 a 2022-23 (Siart 3.3). Mae'r trafodiadau yn y flwyddyn hyd yma yn 2022-23 wedi gostwng 2.8 y cant yn y DU gyfan a 9.6 y cant yn is yng Nghymru, yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2021-22 ar ôl y gwendid cysylltiedig â'r pandemig yn 2020-21.



## Siart 3.3: Trafodiadau eiddo masnachol




Ffynhonnell: CTheF

## Rhagolygon ar gyfer penderfynyddion y farchnad eiddo

- 3.11** Mae ein rhagolygon ar gyfer trethi trafodiadau eiddo yn seiliedig ar ein rhagolygon ar gyfer y farchnad eiddo ledled y DU. Rydym fel arfer yn tybio bod prisiau a thrafodiadau Cymru yn symud yn unol â'r rheini ar gyfer y DU gyfan, oni bai fod rhesymau clir dros wyro oddi wrth hynny. Yn ymarferol, mae hyn yn aml yn golygu ein bod yn defnyddio rhagdybiaethau prisiau tai ychydig yn wahanol yn y tymor agos cyn tybio bod chwyddiant prisiau tai yn cydgyfeirio o ail neu drydedd flwyddyn y rhagolwg. Yn yr alldro, mae chwyddiant prisiau tai yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf 2022-23 wedi bod 2.2 pwynt canran yn uwch nag yn y DU (fel y gwelir yn Siart 3.1 uchod).
- 3.12** Felly, ar gyfer ail hanner 2022-23 a thu hwnt, mae angen i ni benderfynu a fydd y momentwm cryfach hwnnw'n parhau ai peidio. Ar gyfer y rhagolwg hwn, rydym wedi tybio y bydd prisiau tai yn symud gyda'i gilydd yng Nghymru a'r DU gyfan o'r pwynt hwn ymlaen, gan adlewyrchu'r cynnydd sydyn mewn cyfraddau morgais yn effeithio ar y ddwy farchnad ar yr un pryd. Er mwyn caniatáu ar gyfer hyn, rydym wedi ychwanegu lletem pwynt canran 1.1 at y penderfynydd prisiau tai ar gyfer 2022-23 a dim ar ôl hynny. Mae risgiau ynghlwm wrth y dybiaeth hon. Mae Siart 3.4 yn dangos bod prisiau tai yng Nghymru, yn hanesyddol, wedi tueddu i godi'n gynt na'r DU drwyddi draw ychydig cyn dirywiad (fel y maent ar hyn o bryd), ac yna'n gostwng yn arafach o'i gymharu â'r DU yn ystod dirywiad – gyda phrisiau tai yn Llundain yn aml yn arwain y farchnad ehangach. Pe bai'r gostyngiad arafach hwnnw mewn prisiau yng Nghymru yn cael ei ailadrodd yn y dirywiad rydym yn tybio sydd ar y gweill ar hyn o bryd, byddai'n cynrychioli risg orau o ran ein rhagolwg derbynebion Treth Trafodiadau Tir yn y tymor agos.

Siart 3.4: Tueddiadau hanesyddol mewn prisiau tai



Fynhonnell: Y Gofrestrfa Tir

**3.13** Rydym wedi diwygio chwyddiant prisiau tai yn 2022-23 ers ein rhagolwg ym mis Mawrth, gan adlewyrchu data alldro cryfach na'r disgwyl. Ond erbyn hyn mae disgwyl i brisiau ostwng rhwng 2023-24 a 2024-25, ac i ond godi'n gymedrol yn 2025-26, diolch i gyfraddau morgais sylweddol uwch a'r rhagolygon economaidd mwy digalon. Mae twf cronnus prisiau tai rhwng 2021-22 a 2026-27 wedi cael eu diwygio 7.9 pwynt canran i lawr. Mae trafodiadau preswyl hefyd wedi cael eu diwygio i lawr rhwng 2022-23 a 2024-25, sy'n adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad sydd ar y gorwel a chyfraddau llog uwch, ac mae'r olaf eisoes yn bwydo drwodd i drafodiadau is mewn alldro. Mae trafodiadau'n adfer o 2025-26 ymlaen, ond mae'r twf cronnus rhwng 2021-22 a 2026-27 9.2 pwynt canran yn is nag ym mis Mawrth.

**3.14** Rydym hefyd yn tybio y bydd prisiau a thrafodiadau masnachol yn gostwng yn y tymor agos, eto oherwydd y dirwasgiad a chyfraddau llog uwch. O'i gymharu â mis Mawrth, mae prisiau masnachol yn llawer is yn 2023-24, gyda diwygiadau mwy cymedrol mewn blynyddoedd diweddarach, sy'n adlewyrchu isafbwynt cynharach nag ar gyfer prisiau preswyl, ond adferiad mwy graddol wedi hynny. Mae'r diwygiadau i lawr i'n rhagolwg trafodiadau masnachol yn y tymor agos yn llai na'r rhai i'n rhagolwg preswyl, gwahaniaeth sy'n seiliedig ar eu newidiadau cymharol yn ystod yr argyfwng ariannol.

Tabl 3.1: Rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau eiddo yng Nghymru


	Newid canrannol ar y flwyddyn flaenorol						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Prisiau eiddo preswyl	9.6	9.2	-4.2	-4.0	2.1	3.2	3.6
Trafodiadau eiddo preswyl	15.7	-14.0	-15.4	0.6	11.0	15.2	8.6
Prisiau eiddo masnachol	12.4	-0.6	-3.2	2.2	0.9	1.5	1.9
Trafodiadau eiddo masnachol	22.8	-3.0	-5.1	0.9	6.2	6.4	2.0
	Newid ers rhagolwg Mawrth						
Prisiau eiddo preswyl		3.6	-5.1	-5.7	-0.6	0.0	
Trafodiadau eiddo preswyl		-9.9	-18.3	-1.4	9.7	14.0	
Prisiau eiddo masnachol		0.1	-5.6	0.3	-1.0	-0.5	
Trafodiadau eiddo masnachol		-1.9	-7.1	-0.8	4.6	4.7	

## Tueddiadau mewn derbyniadau Treth Trafodiadau Tir

### Derbyniadau eiddo preswyl

3.15 Mae Siart 3.5 yn dangos bod derbyniadau Treth Trafodiadau Tir preswyl (ar ôl tynnu addaliadau) yn hanner cyntaf y flwyddyn wedi cynyddu £19 miliwn (11.9 y cant) o'i gymharu â 2021-22 ac wedi cynyddu £117 miliwn (192 y cant) o'i gymharu â 2020-21, oherwydd bod y cyfyngiadau symud wedi effeithio'n drwm arnynt. Rydym yn disgwyl llwybr cymharol wannach ar gyfer derbyniadau yn ystod ail hanner y flwyddyn, ac yn rhagweld y bydd cyfanswm y derbyniadau yn 2022-23 yn £14 miliwn (5.1 y cant) yn uwch nag alldro 2021-22.

### Siart 3.5: Derbyniadau Treth Trafodiadau Tir preswyl cronus




Ffynhonnell: ACC, OBR

## Derbyniadau eiddo masnachol

3.16 Mae Siart 3.6 yn dangos bod derbyniadau masnachol y flwyddyn hyd yma wedi gostwng £9.2 miliwn (12.6 y cant o'i gymharu â 2021-22, ond wedi cynyddu £39 miliwn (157 y cant) o'i gymharu â 2020-21 oedd wedi dioddef oherwydd effeithiau'r cyfnod clo. Rydym yn tybio y bydd derbyniadau yn gwanhau eto yn ystod ail hanner y flwyddyn, fel bod disgwyl y bydd derbyniadau blwyddyn lawn £20.9 miliwn (16.0 y cant) yn is nag yn 2021-22.

### Siart 3.6: Derbyniadau Treth Trafodiadau Tir masnachol cronus



## Rhagolygon diweddaraf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir

3.17 Mae Tabl 3.2 yn nodi ein rhagolwg diweddaraf ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'i chydannau. O'i gymharu â mis Mawrth, mae derbyniadau wedi cael eu diwygio i lawr ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg, o £107 miliwn (23 y cant) ar gyfartaledd, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau ar i lawr i brisiau a thrafodiadau a ddisgrifir uchod. Mae'r rhagolygon gwannach ar gyfer y farchnad eiddo yn golygu bod derbyniadau'r Dreth Trafodiadau Tir yn gostwng bob blwyddyn rhwng 2021-22 a 2024-25, gyda gostyngiad o 25 y cant ar ei uchaf.

Tabl 3.2: Rhagolwg ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir

	£ mlliwn						
	Alldro 2021-22	Rhagolwg					
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
<b>Cyfanswm LTT</b>							
Rhagolwg Mawrth	390	412	431	453	482	514	
Rhagolwg Rhagfyr	402	395	314	301	341	404	455
Newid		-17	-117	-152	-140	-110	
<b>Preswyl (ac eithrio eiddo ychwanegol)</b>							
Rhagolwg Mawrth	179	214	226	239	259	282	
Rhagolwg Rhagfyr	181	203	149	134	156	194	228
Newid		-11	-76	-105	-103	-88	
<b>Eiddo ychwanegol</b>							
Rhagolwg Mawrth	89	89	91	94	98	102	
Rhagolwg Rhagfyr	91	82	64	63	73	89	100
Newid		-7	-27	-31	-25	-13	
<b>Masnachol</b>							
Rhagolwg Mawrth	123	109	115	119	124	130	
Rhagolwg Rhagfyr	130	110	100	104	112	121	126
Newid		1	-14	-15	-13	-9	

### Rhagolwg Treth Trafodiadau Tir preswyl

- 3.18** Mae Tabl 3.3 yn nodi'r diwygiadau i'n rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir preswyl ers mis Mawrth. Mae derbyniadau prif gyfraddau preswyl wedi cael eu diwygio i lawr ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg - £77 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd (31 y cant). Mae hyn yn bennaf oherwydd diwygiadau i lawr i'r trafodiadau ac i brisiau tai, gyda'r cyntaf yn cael y lle blaenllaw yn y tymor agos ac effaith yr olaf yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn arwain at ostyngiad o 34 y cant ar ei uchaf rhwng 2022-23 a 2024-25 gyda derbyniadau ddim yn dychwelyd i lefelau 2022-23 tan 2027-28. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu trothwy'r Dreth Trafodiadau Tir o £180,000 i £225,000 o 10 Hydref 2022 ymlaen yn gostwng derbyniadau £10 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.
- 3.19** Mae Tabl 3.4 yn dangos y newidiadau i'n rhagolwg cyfraddau ychwanegol, sydd hefyd wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â mis Mawrth - £21 miliwn (22 y cant) ar gyfartaledd. Mae'r gostyngiad o 31 y cant rhwng yr uchafbwynt a'r isafbwynt yn debyg o ran maint i'r rhagolwg prif gyfraddau.

Tabl 3.3: Rhagolwg prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	179	214	226	239	259	282	
Rhagolwg Rhagfyr	181	203	149	134	156	194	228
<b>Newid</b>		<b>-11</b>	<b>-76</b>	<b>-105</b>	<b>-103</b>	<b>-88</b>	
<i>ac o hyn:</i>							
Newidiadau prisiau		19	-6	-29	-35	-43	
Newidiadau trafodiadau		-22	-59	-64	-51	-25	
Data alldro a modelu		-2	-2	-2	-5	-6	
Newidiadau polisi		-6	-10	-10	-12	-13	

Tabl 3.4: Rhagolwg cyfraddau ychwanegol preswyl y Dreth Trafodiadau Tir

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	89	89	91	94	98	102	
Rhagolwg Rhagfyr	91	82	64	63	73	89	100
<b>Newid</b>		<b>-7</b>	<b>-27</b>	<b>-31</b>	<b>-25</b>	<b>-13</b>	
<i>ac o hyn:</i>							
Newidiadau prisiau		4	-1	-5	-6	-7	
Newidiadau trafodiadau		-11	-27	-27	-19	-7	
Data alldro a modelu		-1	0	-1	-1	-1	
Newidiadau polisi		1	1	1	1	2	

### Rhagolwg masnachol y Dreth Trafodiadau Tir

3.20 Mae Tabl 3.5 yn dangos diwygiadau i'n rhagolwg Treth Trafodiadau Tir masnachol o'i gymharu â mis Mawrth. Er bod derbyniadau wedi cael eu diwygio i fyny ychydig yn 2022-23 (er eu bod yn dal i dybio gostyngiad mawr o un flwyddyn i'r llall) maent £13 miliwn y flwyddyn (10 y cant) yn is ar gyfartaledd ar ôl hynny. Mae llai o drafodiadau yn arwain at dderbyniadau is yn ystod blynyddoedd canol y rhagolwg, ac mae effaith prisiau is yn cynyddu'n raddol ar draws y rhagolwg. Mae'r rhagolygon o ran y farchnad eiddo masnachol bob amser yn ansicr, ac yn fwy felly yn yr hinsawdd bresennol.

Tabl 3.5: Rhagolwg masnachol y Dreth Trafodiadau Tir

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	123	109	115	119	124	130	
Rhagolwg Rhagfyr	130	110	100	104	112	121	126
<b>Newid</b>		<b>1</b>	<b>-14</b>	<b>-15</b>	<b>-13</b>	<b>-9</b>	
<i>ac o hyn:</i>							
Newidiadau prisiau		0	-7	-7	-9	-10	
Newidiadau trafodiadau		-2	-10	-12	-7	-1	
Data alldro a modelu		3	3	3	3	3	

## Risgiau ac ansicrwyddau

- 3.21 Yn yr adran hon rydym yn crynhoi rhai o'r prif ffynonellau ansicrwydd ynghylch ein rhagolwg Treth Trafodiadau Tir canolog. Y ffynonellau risg pennaf fydd y risgiau i brisiau eiddo a thrafodiadau o ganlyniad i'r dirywiad economaidd sy'n cael ei ysgogi gan brisiau ynni a'r cynnydd cysylltiedig mewn cyfraddau llog yng nghyswllt benthyca masnachol a phreswyl. Dros y tymor hwy, gallai'r farchnad eiddo masnachol hefyd fod yn sensitif i unrhyw newidiadau parhaus yng nghyfansoddiad gweithgareddau economaidd, fel mwy o bobl yn gweithio gartref neu'r newid cyflym o ran gwerthiant manwerthu ar-lein.
- 3.22 Yn y rhagolwg hwn, rydym wedi ychwanegu codiad **chwyddiant prisiau tai** ar gyfer Cymru yn 2022-23 yng ngoleuni'r alldro diweddar. Rydym wedyn yn tybio bod prisiau'n codi yn unol â'r DU gyfan, felly un risg amlwg yw y bydd chwyddiant prisiau yng Nghymru yn parhau i fynd ar wahân yn y blynyddoedd i ddod. Gallai hynny fod ar ffurf codiadau uwch mewn prisiau yn barhaus, pe bai'r momentwm drwy hanner cyntaf 2022-23 yn parhau. Ond yn yr un modd, gallai'r perfformiad gwell diweddar gael ei ddilyn gan gyfnod o danberfformio, fel sydd wedi digwydd weithiau yn y gorffennol.
- 3.23 Mae'r risgiau eraill sy'n gysylltiedig â'n rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn cynnwys y canlynol:
- **Mapio penderfynyddion y farchnad eiddo i'r wir sylfaen drethu.** Mae'n anodd mapio o'r farchnad eiddo gyfan i'r trafodiadau hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Trafodiadau Tir yn unig. Dim ond lleiafrif bach iawn o'r holl drethdalwyr posibl fydd yn talu'r Dreth Trafodiadau Tir mewn unrhyw flwyddyn benodol, sy'n wahanol i'r rhan fwyaf o weithgareddau trethadwy eraill, pan mae trethdalwyr yn wynebu rhwymedigaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae tua 1.4 miliwn o anheddau yng Nghymru, ond dim ond tua 62,000 o drafodiadau preswyl a gafwyd yn 2021-22.
  - **Crynodiad y sylfaen drethu.** Mae gan y Dreth Trafodiadau Tir atodlen dreth raddoledig: bydd trafodiad preswyl o £200,000 yn talu £1,500 mewn treth, tra bydd trafodiad am bedair gwaith y pris hwn (£1,000,000) yn talu dros deugain gwaith yn fwy o dreth (£61,750). Yn 2021-22 daeth tua hanner y refeniw preswyl o'r 10 y cant uchaf o drafodion. Bydd ein rhagolwg ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir hefyd yn sensitif i drafodiadau eiddo masnachol gwerth uchel yng Nghaerdydd. Yn 2021-22, roedd tri y cant o gyfanswm y trafodiadau masnachol gyda gwerth cyfalaf o fwy na £2 filiwn yn cyfrif am 72 y cant o dderbyniadau'r Dreth Trafodiadau Tir masnachol.
  - **Newidiadau polisi aml.** Mae'r drefn treth trafodiadau eiddo wedi bod yn destun newidiadau polisi dro ar ôl tro. Mae'r newidiadau hyn, yn enwedig pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn ychwanegu ansicrwydd at ein rhagolygon o ran sut bydd trethdalwyr yn ymateb i'r cymhellion treth newydd maent yn eu hwynebu. Roedd hyn yn berthnasol i godi trothwyon LTT a SDLT dros dro ar anterth y pandemig yn ogystal â newidiadau pellach i'r ddau yn ystod y misoedd diwethaf.

- **Rhagflaenu.** Pan gyhoeddir cynyddiadau mewn trethi eiddo ymlaen llaw, mae'n caniatáu dwyn pryniannau ymlaen er mwyn cael eu trethu ar y gyfradd is sy'n bodoli ar y pryd. Gall fod yn anodd mesur cryfder yr ymateb hwn ac felly faint o drafodiadau fydd yn cael eu dwyn ymlaen o gyfnodau yn y dyfodol<sup>7</sup>. Mae ein rhagolwg o Dreth Dir y Dreth Stamp wedi ystyried rhagflaenu cyn y bydd y cynnydd mewn trothwyon yn cael ei dynnu'n ôl ddiwedd mis Mawrth 2025. I'r graddau y mae'r rhagflaenu hwn yn effeithio ar gadwyni o drafodiadau sy'n cynnwys eiddo yng Nghymru, gallai hefyd ddwyn ymlaen dderbyniadau'r Dreth Trafodiadau Tir rhwng 2025-26 a 2024-25.
- **Newidiadau polisi LTT yn y dyfodol.** Dim ond effeithiau polisiâu datganedig cyfredol y mae ein rhagolygon yn eu cynnwys, ac nid bwriadau neu uchelgeisiau polisi sy'n cael eu hystyried (gan adlewyrchu'r gofynion a osodwyd arnom gan Senedd y DU wrth sefydlu'r OBR). Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bwriad i ymestyn y cyfnod addalu ar gyfer y cyfraddau ychwanegol mewn achosion megis cladin anniogel ac amgylchiadau eithriadol eraill.<sup>8</sup> Nid yw wedi pennu dyddiad cychwyn ar gyfer hyn, ond pe byddai'n cael ei weithredu byddem yn disgwyl iddo arwain at gynnydd bach mewn ad-daliadau ac felly lleihau derbyniadau ar y cyfraddau ychwanegol. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad gweinidogol a dogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn archwilio opsiynau ar gyfer amrywiadau lleol mewn cyfraddau LTT ar ail gartrefi ac mae'n parhau â pharatoadau ymgynghori ar gyfer cyflwyno'r polisi hwn ar ddyddiad heb ei gyhoeddi eto.<sup>9</sup> Bydd maint a chyfeiriad y risg y mae'r rhain yn ei pheri i'n rhagolwg LTT yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn fwyaf nodedig i ba raddau y defnyddir unrhyw bwerau newydd ar gyfer pennu cyfraddau gwahaniaethol a'r cyfraddau a ddewisir. Byddwn yn cynnwys costau ar gyfer y mesurau hyn yn ein rhagolwg os a phan fydd Llywodraeth Cymru yn eu datgan fel polisi cadarn.

<sup>7</sup> I gael rhagor o fanylion am hyn, gweler Mathews, P., *OBR Working Paper no. 10: Forestalling ahead of property tax changes*, Hydref 2016.

<sup>8</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, *Treth Trafodiadau Tir ar gyfer ad-daliad cyfraddau preswyl uwch estyniad cyfnod pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol*, 16 Tachwedd 2021.

<sup>9</sup> Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, *Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ail gartrefi a'r dreth trafodiadau tir*, 15 Gorffennaf 2022.



## 4 Treth gwarediadau tirlenwi

### Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon yn:

- disgrifio'r **dreth gwarediadau tirlenwi** a godir yng Nghymru;
- nodi ein **methodoleg** ar gyfer rhagweld derbyniadau; ac yn
- cyflwyno ein **rhagolwg diweddaraf** a rhai pethau ansicr allweddol yn ei gylch.

### Beth yw'r 'dreth gwarediadau tirlenwi'?

4.2 Cyflwynwyd treth dirlenwi yn y DU ym 1996. Mae'n berthnasol i'r holl wastraff sy'n cael ei waredu trwy safle tirlenwi ar safle trwyddedig oni bai fod y gwastraff wedi'i esemptio'n benodol. Yng Nghymru, fe'i disodlwyd gan dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) o Ebrill 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod LDT wedi'i gynllunio i *"hyrwyddo ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol trwy atal gwastraff yn fwy i safleoedd tirlenwi ac i annog aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff"*.<sup>1</sup>

4.3 Codir LDT am bob tunnell o wastraff a waredir ar safle tirlenwi. Mae'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, y disgwylir iddynt drosglwyddo'r costau i'r rhai sy'n gwneud y gwarediadau. Mae nifer fach o warediadau wedi'u hesemptio rhag LDT tra bod rhai rhyddhadau a gostyngiadau ar gael hefyd. Cesglir y dreth gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Hyd yn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfraddau sy'n cyfateb i'r rhai yng ngweddill y DU.

4.4 Mae ein rhagolwg yn cael ei ysgogi gan faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a'r gyfradd dreth effeithiol a delir. Mae'r olaf yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau ynghylch polisi ar gyfraddau, ond hefyd ar gyfansoddiad gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi gan fod tair cyfradd wahanol - 'cyfradd safonol', 'cyfradd is' a 'chyfradd gwarediadau anawdurdodedig'. Yn 2021-22 roedd refeniw o wastraff cyfradd safonol yn cyfrif am 96 y cant o gyfanswm y refeniw o LDT.

### Methodoleg y rhagolwg

4.5 Mae'r rhagolwg LDT yn defnyddio model o'r gwaelod i fyny a weithredir ar ein rhan gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru. Y rhagydybiaethau a'r dyfarniadau sy'n cael eu

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, *Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2016: Asesiadau Effaith*.

cynnwys ynddo yw rhai'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllideb. Mae'r fethodoleg a ragwelir yn syml - y prif gamau yw:

- sefydlu amcangyfrif **yn ystod y flwyddyn** gan dynnu ar y data gweinyddol diweddaraf (a ffynonellau perthnasol eraill) i amcangyfrif lefel y derbyniadau yn y flwyddyn gyfredol;
- cynhyrchu **rhagolwg cyn-fesurau** trwy ddefnyddio'r model rhagolwg LDT i luosi swm y gwastraff atebol a anfonir i safleoedd tirlenwi (y sylfaen dreth) â chyfradd berthnasol y doll; a
- cynhyrchu **rhagolwg ôl-fesurau** trwy ychwanegu effeithiau unrhyw fesurau polisi newydd.

Rydym yn trafod pob cam yn ei dro.


### Sefydlu amcangyfrif yn ystod y flwyddyn

- 4.6** Mae gan y mwyafrif o weithredwyr safleoedd tirlenwi gyfnod cyfrifo blynyddol blwyddyn galendr. Mae ACC yn derbyn y mwyafrif o ffurflenni LDT chwarterol ar ddiwedd Ebrill, Gorffennaf, Hydref ac Ionawr (rhaid anfon ffurflenni erbyn diwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu). Mae'r ACC yn cyhoeddi data alldro derbyniadau LDT bob chwarter.<sup>2</sup>
- 4.7** Mae ein rhagolwg yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddata alldro o hanner cyntaf 2022-23. Mae Siart 4.1 yn dangos rhaniad y derbyniadau treth LDT blynyddol ym mhob chwarter o 2018-19 ymlaen, sy'n amlygu tueddiadau tymhorol yn faint o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Mae'n awgrymu bod rhywfaint o natur dymhorol yn y gwastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Mae pob chwarter, ar wahân i'r chwarter cyntaf yr effeithiwyd arno gan y cyfyngiadau symud yn 2020-21, yn cyfrannu o leiaf un rhan o bump o'r derbyniadau blwyddyn lawn, ond daw'r gyfran uchaf o dderbyniadau ym mhob blwyddyn yn yr ail chwarter. Roedd proffil y derbyniadau yn 2020-21 yn anarferol oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig â'r pandemig a'u heffeithiau ar weithgarwch economaidd, a oedd fwyaf difrifol yn y chwarter cyntaf. O ganlyniad, roedd cyfran y derbyniadau yn chwarter cyntaf 2020-21 yn anarferol o isel ac roedd y cyfrannau (os nad y symiau absoliwt) yn y chwarteri sy'n weddill o'r flwyddyn yn anarferol o uchel. Ers 2018-29, mae cyfran gyfartalog y refeniw blwyddyn lawn a dderbyniwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol (ac eithrio blwyddyn ariannol 2021-21 a wyrwyd gan bandemig) wedi bod yn 57 y cant.

---

<sup>2</sup> Mae nifer llai o weithredwyr safleoedd yn defnyddio gwahanol gyfnodau cyfrifyddu, sy'n golygu y gallai datganiadau data misol fod yn ddatgeliadol. Nid ydym yn tynnu ar ddata gweinyddol misol anghyhoeddedig ACC wrth baratoi ein hamcangyfrifon yn ystod y flwyddyn.

## Siart 4.1: Canran y derbyniadau trethi tirlenwi blynyddol o bob chwarter



## Y rhagolwg cyn-fesurau

## Sylfaen dreth: maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi

**4.8** Amcangyfrifir maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi trwy galibro data o Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda data alldro o ACC. Mae ein model yn didoli'r data hyn yn ôl y cod 'Catalog gwastraff Ewropeaidd' yn dunelleddau sy'n atebol i gyfraddau safonol ac is LDT. Mae hyn yn caniatáu i ni gael gwared ar wastraff sydd wedi'i eithrio rhag LDT. Yna rhagamcanir y tunelleddau sy'n atebol i LDT ymlaen gan ddefnyddio gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff awdurdodau lleol, datblygiadau seilwaith gwastraff, a rhagdybiaeth ynghylch llwybr gwastraff arall yn y dyfodol.

**4.9** Mae sawl dewis arall yn lle anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys:


- **Ailgyrchu a llosgi**, y mae ei lefelau yn dibynnu ar gapasiti'r seilwaith Cymreig sydd ar gael. O ystyried y sylfaen dreth lawer llai yng Nghymru, gall newidiadau mewn seilwaith amgen ar gyfer trin gwastraff arwain at effeithiau cyfrannol fwy ar dderbyniadau LDT nag y byddai newid cyfatebol yn Lloegr yn ei gael ar dderbyniadau treth tirlenwi y DU.
- **Allforio gwastraff**, a all fod yn rhatach na'i anfon i safle tirlenwi. Ar hyn o bryd mae dau ffactor allanol a allai gyfyngu ar nifer yr allforion dros y tymor canolig - perthynas fasnachu newydd y'r DU â'r UE a gwaharddiad Llywodraeth Tsieina ar fewnforio gwastraff solet. Gallai pob un gynyddu faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (gan gynnwys gwastraff a gynhyrchir yn Lloegr) a chynrychioli risg ansicr o ennill i dderbyniadau LDT. I'r graddau mae'r ffactorau hyn, a ffactorau eraill, wedi effeithio ar dderbyniadau LDT, cawsom ein synnu ar yr ochr orau gan y rhagolygon

## Treth gwarediadau tirlenwi

diweddaraf, a byddai hyn yn cael ei gofnodi yn ymhlyg yn ein hamcangyfrif o fewn y flwyddyn yn hytrach na thrwy addasiad amlwg i'r rhagolwg.

- 4.10** Nid ydym yn modelu'r defnydd o'r dewisiadau amgen hyn yn benodol. Yn lle hynny, rydym yn cymryd eu bod yn darparu digon o le i ddarparu ar gyfer twf mewn gwastraff sy'n codi yn y dyfodol heb effeithio ar faint o wastraff tirlenwi. Mae'r lefel gronynnog o wybodaeth sydd ar gael inni ar seilwaith Cymru yn golygu y gallwn ystyried newidiadau disgwylidig pan fydd angen.
- 4.11** Mae maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn y DU gyfan wedi bod yn tueddu at i lawr, ac mae Siart 4.2 yn dangos patrwm tebyg yng Nghymru. Mae'r maint a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wedi gostwng bron i dri chwarter rhwng 2006-07 (3.8 miliwn tunnell) a 2019-20 (1.0 miliwn tunnell). Mae Siart 4.2 hefyd yn dangos bod llai o wastraff wedi cael ei anfon i safleoedd tirlenwi fesul uned o werth ychwanegol crynswth yn raddol dros yr un cyfnod (GVA - mesur o weithgarwch economaidd).

### Siart 4.2: Tunelledd gwastraff tirlenwi yng Nghymru o'i gymharu â gweithgarwch economaidd Cymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, SYG

### Cyfradd effeithiol y dreth gwaredu tirlenwi a delir

- 4.12** Mae dwy brif gyfradd ar gyfer LDT - cyfradd 'safonol' a chyfradd 'is'. Mae'r gyfradd is yn berthnasol i wastraff sy'n 'anadweithiol' - h.y. deunyddiau llai peryglus neu lai llygrol megis bricks, concrit a thywod. Mae'r gyfradd safonol yn berthnasol i bopeth arall nad yw wedi'i eithrio (gweler isod) neu sy'n anawdurdodedig.<sup>3</sup> Yn y Gyllideb hon mae Llywodraeth Cymru yn cadw cyfraddau ar yr un lefel â'r rhai a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2023-

<sup>3</sup> Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno trydydd cyfradd 'gwarediadau anawdurdodedig' sy'n berthnasol i bob gwarediad a wneir y tu allan i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, ni waeth a fyddent wedi cymhwyso ar gyfer y cyfraddau safonol neu is. Mae'r gyfradd 2023-24 ar gyfer gwarediadau o'r fath wedi'i gosod ar 153.15 y dunnell o wastraff.

24, gan osod **cyfradd safonol o £102.10 y dunnell** o wastraff a **chyfradd is o £3.25 y dunnell**.<sup>4</sup> Mae ein rhagolwg yn rhagdybio y bydd y ddwy gyfradd yn codi yn unol â chwyddiant RPI yn y blynyddoedd i ddod (yn unol â rhagdybiaeth mynegeio ddiodyfyn Llywodraeth y DU). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi ei pholisi ar gyfer y blynyddoedd i ddod a byddai'n rhydd i bennu cyfraddau eraill pe dymunai.

- 4.13** Yn yr un modd â threth tirlenwi y DU, mae deddfwriaeth LDT yn caniatáu ar gyfer esemptiadau a rhyddhadau. Lle mae gwarediadyn esempt, er enghraifft mewn mynwent anifeiliaid anwes, nid oes unrhyw rwymedigaeth treth ac nid oes angen i weithredwr y safle ei gofnodi ar ffurflen dreth. Lle mae gwarediad yn gymwys i gael rhyddhad, megis pan fydd yn cynnwys deunydd sy'n cael ei dynnu o ddŵr trwy garthu, mae angen i weithredwr y safle roi cyfrif amdano, ond gellir hawlio'r rhyddhad trwy'r ffurflen dreth. Mae'r gyfradd effeithiol a delir yn dibynnu nid yn unig ar gyfraddau ac esemptiadau statudol, ond hefyd ar gyfansoddiad gwarediadau gwastraff. Yn 2021-22, y gyfradd effeithiol a dalwyd oedd £38.75 y dunnell o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. Yn ystod dau chwarter cyntaf 2022-23 gostyngodd y gyfradd dreth effeithiol a dalwyd i £35.86 y dunnell o wastraff wrth i'r gyfran o wastraff cyfradd safonol ostwng yn gymedrol.

## Rhagolwg ôl-fesurau

- 4.14** Y cam olaf yn ein proses ragweld yw ychwanegu effaith mesurau polisi newydd a gyhoeddwyd ers cyhoeddi ein rhagolwg blaenorol. Ar gyfer treth dirlenwi ac LDT mae'r rhain yn nodweddiadol fach, er y gallant fod yn destun rhywfaint o ansicrwydd o hyd. Er enghraifft, yn 2018 cychwynnodd penderfyniad Llywodraeth y DU i ymestyn treth dirlenwi i safleoedd anghyfreithlon chwe mis yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd oedi wrth weithredu'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sy'n ofynnol i ddiogelu'r staff cydymffurfio newydd a gyflogwyd i'w blismona.

## Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi

- 4.15** Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir uchod ac yn seiliedig ar ddata alldro LDT ar gyfer dau chwarter cyntaf 2022-23, mae'r adran hon yn disgrifio ein rhagolwg a'n newidiadau diweddaraf ers mis Mawrth.


## Alldro derbyniadau

- 4.16** Mae Siart 4.3 yn dangos bod derbyniadau yn hanner cyntaf 2022-23 wedi gostwng £0.8 miliwn o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a gafodd rywfaint o hwb yn sgil dal i fyny â gweithgareddau ar ôl cyfnodau clo'r pandemig yn 2020-21 a effeithiodd ar weithgarwch economaidd a maint y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi. Mae derbyniadau £3.8 miliwn yn uwch o gymharu â'r un cyfnod yn 2019-20, a £9.5 miliwn yn uwch o'i gymharu â 2020-21. Disgwyliwn dderbyniadau is yng ngweddill 2022-23 – yn unol â'r patrwm chwarterol o dderbyniadau a ddangosir yn Siart 4.1 – ond iddynt ddod i gyfanswm o £43.4 miliwn yn y

<sup>4</sup> Mae pob cyfradd yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

flwyddyn lawn, £1.9 miliwn yn is nag yn 2021-22, ond £6.3 miliwn yn uwch na 2019-20 a £11.4 miliwn yn uwch na 2020-21.

### Siart 4.3: Derbynebaw LDT chwarterol



Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru

### Rhagolwg diweddaraf

**4.17** Mae Tabl 4.1 yn cyflwyno ein rhagolwg LDT a ffynonellau'r newidiadau ers mis Mawrth. Rydym wedi diwygio derbyniadau yn 2022-23 i fyny £8 miliwn, gan adlewyrchu data alldro cryfach na'r disgwyl yn hanner cyntaf y flwyddyn. O'r herwydd, rydym wedi tybio y bydd £6 miliwn y flwyddyn yn parhau ar draws y rhagolwg, sy'n cael ei adlewyrchu fel newidiad modelu i dybio bod mwy o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gan fod maint y gwastraff ar ôl y pandemig wedi adfer yn gryfach na'r disgwyl. O 2025-26 ymlaen, mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ein rhagolwg is ar gyfer chwyddiant RPI a'n tybiaethau ar gyfer cyfraddau LDT yn y dyfodol.

**4.18** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer rheoliadau ailgylchu newydd ar gyfer busnesau i gynyddu ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.<sup>5</sup> Bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym o 1 Hydref 2023 ymlaen, a byddant yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau wahanu gwastraff i ffrydiau gwahanol a gwahardd rhai deunyddiau rhag cael eu llosgi neu eu claddu mewn safleoedd tirlenwi. Mae'r cynigion yn destun ymgynghoriad, ond mae'r paramedrau allweddol a'r dyddiad dechrau arfaethedig wedi cael eu hystyried yn ddigon cadarn i ystyried effeithiau'r rheoliadau ar dderbyniadau'r LDT yn y rhagolwg hwn. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i'r cynllun polisi neu'r dyddiad dechrau mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu mewn rhagolygon yn y dyfodol. Rydym wedi defnyddio dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'i effaith debygol i

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, 23 Tachwedd.

amcangyfrif y bydd derbyniadau £1 miliwn yn is yn 2023-24, gan godi i £3 miliwn erbyn 2027-28 wrth i ymwybyddiaeth o'r rheoliadau a chydymffurfiaeth â nhw wella.

Tabl 4.1: Rhagolwg LDT

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Rhagolwg Mawrth	47	35	35	35	35	34	
Rhagolwg Rhagfyr	45	43	41	39	37	35	35
<b>Newid</b>		<b>8</b>	<b>6</b>	<b>4</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	
ac o hyn:							
Data alldro		2	0	0	0	0	
Penderfynyddion		0	0	0	-2	-2	
Rheoliadau ailgylchu i fusnesau		0	-1	-2	-3	-3	
Modelu ac arall		6	6	6	6	6	

## Risgiau ac eitemau ansicr

4.19 Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r prif eitemau ansicr ynghylch ein rhagolwg LDT canolog. Ni fyddem yn disgwyl i'r risg a berir gan unrhyw un o'r rhain fod yn arbennig o fawr. Maent yn cynnwys:

- Rhagdybir y bydd **cyfaint net y gwastraff sy'n codi** yn aros yn gyson dros y cyfnod a ragwelir. Mae newidiadau yn seilwaith Cymru, megis cynnydd yn y defnydd o losgi, yn golygu bod y rhagolwg ar gyfer tunnell o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn gostwng. Fel y dangosodd Siart 4.2, mae gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi tueddu i ostwng dros amser, ond cynyddodd ychydig rhwng 2014-15 a 2016-17 a chawsom ein synnu ar yr ochr orau yn y rhagolwg hwn eto. Mae hyn yn dangos sut mae'r sylfaen dreth yn gallu ein synnu i'r naill ffordd a'r llall o'n rhagolwg canolog.
- Mae pob treth yn destun rhywfaint o **ddiffyg cydymffurfio**, yn amrywio o wallau syml i weithgarwch troseddol bwriadol. Ar lefel y DU, mae Cyllid a Thollau EF yn defnyddio technegau ystadegol i fesur y gwahaniaeth rhwng yr atebolrwydd treth damcaniaethol a'r hyn a delir mewn gwirionedd, y 'bwlch treth'. Ei amcangyfrif diweddaraf o'r bwlch treth ar gyfer treth dirlenwi y DU yw 17.1 y cant neu £125 miliwn.<sup>6</sup> Nid oes unrhyw amcangyfrif eto ar gyfer y bwlch treth LDT, ond pe byddai'r bwlch yr un fath yn nhermau canran, yna byddai hyn yn awgrymu na chasglwyd oddeutu £9 miliwn o dderbyniadau posibl yn 2021-22. Nid oes gennym ddigon o wybodaeth eto am weithgareddau cydymffurfio LDT ACC i gymryd golwg gadarn felly, am y tro, nid yw ein rhagolwg yn awgrymu unrhyw newid yn y gyfradd (anhysbys ar hyn o bryd) o ddiffyg cydymffurfio yn y blynyddoedd i ddod. Byddai unrhyw newidiadau yn y gyfradd honno yn peri risg i dderbyniadau.
- Nid yw LDT ar **warediadau anawdurdodedig** yn dreth hunanasesedig, gyda'r atebolrwydd treth yn deillio o ACC yn nodi achosion addas ac yn cyhoeddi

<sup>6</sup> Mae hyn yn ymwneud â 2020-21. Am ragor o fanylion gweler rhifyn CThEF Mesur bylchau treth 2022.

hysbysiadau codi tâl. Dechreuodd ACC gyhoeddi hysbysiadau i ddarpar drethdalwyr yn 2021-22, ac mae'n bwriadu cynyddu ei weithgareddau gweithredol dros y blynyddoedd nesaf, a allai arwain at refeniw ychwanegol.<sup>7</sup> Byddai'r swm a gesglir yn dibynnu ar adnoddau, cynllunio a risgiau ymglyfreitha.

- Mae ein rhagolwg yn cymryd yn ganiataol bod digon o **gapasiti llosgi ac ailgylchu** yng Nghymru i amsugno unrhyw gynnydd mewn gwastraff sy'n codi. Byddai angen ailedrych ar y rhagdybiaethau hyn pe byddai problemau gyda chapasiti seilwaith, er enghraifft pe byddai llosgydd mawr yn mynd all-lein am gyfnod sylweddol neu pe byddai capasiti newydd yn cael ei oedi. Byddai digwyddiadau o'r fath yn awgrymu cyfran uwch o gyfanswm y gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi nag a ragdybiwyd ymhlyg yn ein rhagolwg ac felly derbyniadau LDT uwch.
- Mae'n bosibl y gallai polisiâu nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru effeithio ar dderbyniadau LDT. Gallai **ymadawiad y DU o'r UE** wneud allforio gwastraff i Ewrop yn llai deniadol, yn y tymor byr i'r tymor canolig o leiaf. Am y tro, nid ydym wedi rhagdybio unrhyw rwystrau gwastraff-benodol i allforion y DU i'r UE yn y dyfodol. Pe byddai unrhyw rai'n cael eu gwireddu, gellid anfon mwy o wastraff i safleoedd tirlenwi sy'n cynrychioli risg tu uchaf i dderbyniadau LDT. Yn yr un modd, gallai'r **gwaharddiad Llywodraeth Tsieina ar fewnforio gwastraff solet** a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021 ddargyfeirio gwastraff a fyddai fel arall wedi cael ei allforio (naill ai o Gymru neu Lloegr) i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gan godi derbyniadau LDT hefyd.<sup>8</sup>
- **Ymatebion ymddygiadol i newidiadau polisi.** Hyd yn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi alinio cyfraddau LDT â'r rhai ar gyfer treth dirlenwi y DU. Pe byddai'r cyfraddau hynny'n dargyfeirio yna byddem yn disgwyl i rywfaint o wastraff gael ei ddargyfeirio dros y ffin i'r safleoedd a oedd yn ddarostyngedig i'r cyfraddau is. Mae cyfran sylweddol o'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn tarddu o Loegr.<sup>9</sup> At hynny, fel y dengys Ffigur 4.1, mae nifer o safleoedd tirlenwi yn gymharol agos at y naill ochr neu'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, felly mae'n amlwg y byddai lle i ymatebion ymddygiadol o'r fath ddigwydd.<sup>10</sup> Byddai'r graddau y byddent yn gwneud hyn yn dibynnu ar sut roedd yr arbediad treth posibl o'i gymharu â'r costau cludo a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag anfon gwastraff i safle tirlenwi yn ddarostyngedig i'r cyfraddau treth is. Er enghraifft, bydd y gwaharddiad gwastraff trefol bioddiddiadwy (BMW) yn yr Alban, a ddaw i rym ar 31 Rhagfyr 2025, yn atal gwastraff cartref bioddiddiadwy (neu wastraff tebyg arall) rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Disgwyliwn ymateb ymddygiadol sylweddol gyda llawer o BMW yr Alban yn cael ei dirlenwi yn Lloegr. Ac mae'r rhagolwg hwn yn ymgorffori ymateb ymddygiadol tybiedig mwy cymedrol i reoliadau ailgylchu busnes newydd, sydd hefyd yn destun ansicrwydd nes y gellir arsylwi ymateb busnesau.

<sup>7</sup> Awdurdod Cyllid Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021 to 2022*, Gorffennaf 2022.

<sup>8</sup> Mae data masnach yn awgrymu y gallai peth o'r effaith hwn fod wedi dod i'r amlwg cyn i'r gwaharddiad llawn gael effaith, gyda'r gyfradd o wastraff solet a fewnforiwyd gan Tsieina ddisgyn yn sylweddol ers 2017.

<sup>9</sup> Mae data gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod gwastraff o Loegr, ers datganoli LDT, yn cyfrif am 18 y cant o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

<sup>10</sup> Mae'r coridor 60 milltir o'r ffin wedi'i ddewis fel enghraifft yn unig.



Ffigur 4.1: Safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac o fewn 60 milltir i'r ffin â Lloegr





# A Rhagolygon sydd eu hangen ar gyfer yr addasiadau grant bloc

- A.1** Mekanwaith ar gyfer trosglwyddo arian o Lywodraeth y DU i'r Llywodraethau datganoledig yw'r grant bloc, fel y dyrannir o fewn terfynau gwariant adrannol a bennir gan y Trysorlys. Mae'r grantiau bloc ar gyfer Llywodraethau Cymru a'r Alban yn cael eu haddasu yn unol â'u fframweithiau cyllidol priodol.<sup>1</sup> Nid oes gan yr OBR unrhyw ran uniongyrchol yn y penderfyniadau gwariant hyn na'r trafodaethau grant bloc, ond mae'r setliadau gwariant yn tynnu ar ein rhagolygon treth.
- A.2** Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno'r rhagolygon hynny, sy'n ymwneud yn bennaf â referniw Llywodraeth y DU o'r trethi sy'n cyfateb i'r rhai sydd wedi'u datganoli. Ar gyfer y tair treth a gwmpesir yn yr adroddiad hwn, treth gyfatebol Llywodraeth y DU yw treth incwm (heblaw am gynilion, difidendau), treth dir y dreth stamp, a'r dreth dirlenwi, i gyd o Loegr a Gogledd Iwerddon.
- A.3** Mae methodolegau'r rhagolygona ar gyfer trethi Llywodraeth yr Alban a'r DU fwy neu lai yr un fath â'r rhai a ddisgrifir ar gyfer Cymru ym Mhenodau 2 i 4 ac ar dudalennau perthnasol ein gwefan. Yn gyntaf, rydym yn sefydlu amcangyfrif o fewn y flwyddyn gan ddefnyddio'r data gweinyddol diweddaraf i amcangyfrif lefel y derbyniadau yn 2022-23. Yna rydym yn rhagamcanu dros y gorwel pum mlynedd gan ddefnyddio'r modelau rhagolygon priodol a'n dyfarniadau ein hunain. Mae'r penderfynyddion economaidd a ddefnyddir yn dod o'n rhagolygon Economaidd a chyllidol ym mis Tachwedd 2022.
- A.4** Mae Tablau A.1 i A.4 yn cymharu ein rhagolygon presennol ar gyfer trethi datganoledig Cymru (a'r Alban) â'r hyn sy'n cyfateb i Lywodraeth y DU (sy'n ymwneud â Lloegr a Gogledd Iwerddon). Yn y tymor agos, mae ein rhagolygon treth incwm yn adlewyrchu'r pecyn o fesurau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref 2022 a'r pedwar datganiad cyllidol arall ers mis Mawrth.<sup>2</sup> Yn y tymor hwy, bydd gwahaniaethau yn ein rhagolygon treth incwm yn bennaf yn adlewyrchu tybiaethau ynghylch twf poblogaeth cymharol. Mae gwahaniaethau yn ein rhagolygon ar gyfer trethi trafodiadau eiddo yn deillio o strwythur mwy graddoledig rhestrau trethi Cymru a'r Alban, sy'n sicrhau mwy o enillion referniw o lusgo cyllidol wrth i brisiau tai godi. Caiff hyn ei orchuddio gan effeithiau sylweddol y newidiadau dros dro i drothwyon treth stamp sy'n berthnasol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (sy'n gostwng derbyniadau o hanner ffordd drwy 2022-23 hyd nes y daw'r mesur i ben ar ddiwedd 2024-25), ynghyd ag effeithiau mwy cymedrol newid parhaol i drothwyon treth trafodiadau tir yng Nghymru a ddaeth i rym ym mis Hydref.

<sup>1</sup> Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016, a'r cytundeb rhwng Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth yr Alban, Chwefror 2016.

<sup>2</sup> Darperir y rhestr lawn o fesurau a'u dadansoddiadau cost cysylltiedig yn Nhabl atodol 3.11, sydd ar gael ar ein gwefan.

Tabl A.1: Treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend

	£ biliwn							
	Aldro	Rhagolwg						
		2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
<b>Treth incwm NSND y DU gyfan</b>	<b>180.3</b>	<b>207.3</b>	<b>224.7</b>	<b>237.9</b>	<b>245.8</b>	<b>254.8</b>	<b>267.0</b>	<b>282.5</b>
ac o hyn:								
Treth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC)	2.1	2.4	2.6	2.8	2.9	3.0	3.2	3.3
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU o Gymru	2.8	3.2	3.4	3.7	3.8	4.0	4.2	4.4
Treth incwm yr Alban	11.9	13.5	14.6	15.2	15.7	16.2	16.9	17.8
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon	163.5	188.2	204.1	216.2	223.3	231.6	242.8	256.9
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU <sup>1</sup>	166.2	191.4	207.6	219.9	227.2	235.6	246.9	261.3
		Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach						
<b>Treth incwm NSND y DU gyfan</b>		<b>15.0</b>	<b>8.4</b>	<b>5.9</b>	<b>3.3</b>	<b>3.7</b>	<b>4.8</b>	<b>5.8</b>
ac o hyn:								
Treth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC)		12.2	8.5	7.3	4.7	3.4	4.5	5.9
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU o Gymru		14.4	8.7	7.2	4.5	3.6	5.0	6.4
Treth incwm yr Alban		13.0	8.0	4.5	2.7	3.4	4.4	5.4
Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon		15.2	8.4	5.9	3.3	3.7	4.8	5.8
Treth incwm NSND Llywodraeth y DU <sup>1</sup>		15.2	8.4	5.9	3.3	3.7	4.8	5.8

<sup>1</sup> Treth incwm NSND y DU gyfan ac eithrio treth incwm yr Alban a threth incwm Llywodraeth Cymru (sail CTIC).

Tabl A.2: Cyfraddau Cymru a rhagolygon treth incwm cyfatebol Lloegr a Gogledd Iwerddon fesul band

	£ bllw'n							
	Alldro 2020-21	Rhagolwg						
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
<b>Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)</b>	<b>60.7</b>	<b>69.8</b>	<b>75.7</b>	<b>80.0</b>	<b>82.5</b>	<b>85.4</b>	<b>89.3</b>	<b>93.6</b>
<i>ac o hyn:</i>								
Cyfradd sylfaenol	41.5	47.8	52.0	55.3	57.2	59.2	61.6	64.2
Cyfradd uwch	11.4	12.6	13.6	14.2	14.5	15.0	15.9	16.9
Cyfradd ychwanegol	7.7	9.3	10.0	10.4	10.7	11.2	11.8	12.5
<b>Cyfraddau Cymru</b>	<b>2.1</b>	<b>2.4</b>	<b>2.6</b>	<b>2.8</b>	<b>2.9</b>	<b>3.0</b>	<b>3.2</b>	<b>3.3</b>
<i>ac o hyn:</i>								
Cyfradd sylfaenol	1.8	2.0	2.2	2.4	2.5	2.6	2.7	2.8
Cyfradd uwch	0.3	0.3	0.3	0.3	0.4	0.4	0.4	0.4
Cyfradd ychwanegol	0.0	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1	0.1
<b>Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach</b>								
<b>Treth incwm NSND Lloegr a Gogledd Iwerddon (sail CTIC)</b>		<b>15.1</b>	<b>8.4</b>	<b>5.7</b>	<b>3.2</b>	<b>3.5</b>	<b>4.5</b>	<b>4.9</b>
<i>ac o hyn:</i>								
Cyfradd sylfaenol		15.2	8.7	6.3	3.5	3.4	4.1	4.2
Cyfradd uwch		10.6	8.0	4.2	2.1	3.4	5.7	6.2
Cyfradd ychwanegol		21.1	7.2	4.1	3.0	4.2	5.3	6.5
<b>Cyfraddau Cymru</b>		<b>12.2</b>	<b>8.5</b>	<b>7.3</b>	<b>4.7</b>	<b>3.4</b>	<b>4.5</b>	<b>5.9</b>
<i>ac o hyn:</i>								
Cyfradd sylfaenol		10.7	8.4	7.4	4.8	3.3	4.0	5.5
Cyfradd uwch		19.3	9.3	6.8	3.9	3.9	7.1	7.9
Cyfradd ychwanegol		32.5	8.8	6.8	4.3	4.7	5.8	8.1

Tabl A.3: Trethi trafodion eiddo

	£ miliwn						
	Alldro 2021-22	Rhagolwg					
		2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
<b>Trethi trafodiadau eiddo y DU gyfan</b>	<b>15,299</b>	<b>17,034</b>	<b>12,449</b>	<b>12,283</b>	<b>14,586</b>	<b>17,770</b>	<b>20,122</b>
<i>ac o hyn:</i>							
LTT (Cymru)	402	395	314	301	341	404	455
LBTT (Yr Alban)	799	852	697	676	765	901	1,014
SDLT (Lloegr a Gogledd Iwerddon)	14,098	15,788	11,438	11,306	13,480	16,465	18,654
<b>Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach</b>							
<b>Trethi trafodiadau eiddo y DU gyfan</b>		<b>11.3</b>	<b>-26.9</b>	<b>-1.3</b>	<b>18.8</b>	<b>21.8</b>	<b>13.2</b>
<i>ac o hyn:</i>							
Treth trafodiadau tir (Cymru)		-1.9	-20.5	-4.2	13.5	18.4	12.5
LBTT (Yr Alban)		6.6	-18.2	-3.0	13.2	17.9	12.5
SDLT (Lloegr a Gogledd Iwerddon)		12.0	-27.6	-1.2	19.2	22.1	13.3

Tabl A.4: Trethi tirlenwi

	£ miliwn						
	Alldro	Rhagolwg					
		2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
<b>Trethi tirlenwi y DU gyfan</b>	<b>854</b>	<b>835</b>	<b>774</b>	<b>739</b>	<b>679</b>	<b>667</b>	<b>679</b>
<i>ac o hyn:</i>							
Treth gwarediadau tirlenwi (Cymru)	45	43	41	39	37	35	35
Treth tirlenwi yr Alban	125	114	83	81	65	16	16
Treth tirlenwi (Lloegr a Gogledd Iwerddon)	683	677	651	619	578	616	628
		Newid canrannol ar y flwyddyn gynharach					
<b>Trethi tirlenwi y DU gyfan</b>		<b>-2.2</b>	<b>-7.3</b>	<b>-4.6</b>	<b>-8.0</b>	<b>-1.9</b>	<b>1.8</b>
<i>ac o hyn:</i>							
Treth gwarediadau tirlenwi (Cymru)		-4.2	-6.1	-4.2	-6.2	-4.7	-0.3
Treth tirlenwi yr Alban		-9.2	-27.3	-2.2	-20.1	-75.8	2.4
Treth tirlenwi (Lloegr a Gogledd Iwerddon)		-0.8	-4.0	-4.9	-6.5	6.5	2.0

# Mynegai siartiau a thablau

## Pennod 2 Cyfraddau treth incwm Cymru

Siart 2.1: Rhaniadau darluniadol rhwng atebolwyddau treth incwm Cymru a Llywodraeth y DU .....	7
Siart 2.2: Cyfran Cymru o atebolwyddau treth incwm a phoblogaeth y DU .....	9
Siart 2.3: Atebolwyddau treth incwm Cymru a'r DU fesul person yn 2019-20 .....	10
Siart 2.4: Cyfradd cyflogaeth y DU a Chymru .....	11
Siart 2.5: Newid mewn trethdalwyr yn ôl band treth rhwng 2010-11 a 2019-20 .....	12
Tabl 2.1: Incwm cyfartalog yn 2019-20 yn ôl math .....	13
Tabl 2.2: Mesur gwahanol o enillion cyflogaeth ar gyfartaledd yn 2019-20 .....	13
Siart 2.6: Cyfraddau treth incwm effeithiol yng Nghymru a'r DU .....	14
Siart 2.7: Cyfran o gyfanswm incwm trethdalwyr yn y DU a Chymru yn ôl band incwm .....	15
Siart 2.8: Cyfrannau Cymru o gyfanswm rhwymedigaethau treth incwm y DU: holl dreth gan drethdalwyr Cymru yn erbyn cyfraddau treth incwm Cymru .....	16
Tabl 2.3: Paramedrau treth incwm Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru .....	18
Tabl 2.4: Rhagolwg y DU gyfan o atebolwyddau treth ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend .....	19
Tabl 2.5: Cyfran yr atebolwyddau cyn-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru .....	20
Tabl 2.6: Cyfraddau treth incwm Cymru .....	20
Tabl 2.7: Rhagolwg cyfraddau treth incwm Cymru o atebolwyddau treth ar incwm NSND yn ôl band treth .....	21
Tabl 2.A: Rhagolygon olynol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a chyfran yr atebolwydd cyn-fesurau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau Cymru (2020-21) .....	23
Siart 2.A: Gwahaniaethau olynol o ran y rhagolygon ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru (2020-21) .....	24

## Pennod 3 Treth trafodiadau tir

Siart 3.1: Chwyddiant prisiau tai: Cymru o'i chymharu â'r DU gyfan .....	27
Siart 3.2: Trafodiadau eiddo preswyl .....	28
Siart 3.3: Trafodiadau eiddo masnachol .....	29
Siart 3.4: Tueddiadau hanesyddol mewn prisiau tai .....	30

Tabl 3.1: Rhagolygon ar gyfer prisiau a thrafodiadau eiddo yng Nghymru.....	31
Siart 3.5: Derbyniadau Treth Trafodiadau Tir preswyl cronnus .....	31
Siart 3.6: Derbyniadau Treth Trafodiadau Tir masnachol cronnus.....	32
Tabl 3.2: Rhagolwg ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir.....	33
Tabl 3.3: Rhagolwg prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir .....	34
Tabl 3.4: Rhagolwg cyfraddau ychwanegol preswyl y Dreth Trafodiadau Tir .....	34
Tabl 3.5: Rhagolwg masnachol y Dreth Trafodiadau Tir .....	34
Pennod 4 Treth gwarediadau tirlenwi	
Siart 4.1: Canran y derbyniadau trethi tirlenwi blynyddol o bob chwarter .....	39
Siart 4.2: Tunelledd gwastraff tirlenwi yng Nghymru o'i gymharu â gweithgarwch economaid Cymru .....	40
Siart 4.3: Derbynebau LDT chwarterol.....	42
Tabl 4.1: Rhagolwg LDT .....	43
Ffigur 4.1: Safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac o fewn 60 milltir i'r ffin â Lloegr.....	45
Atodiad A Rhagolygon sydd eu hangen ar gyfer yr addasiadau grant bloc	
Tabl A.1: Treth incwm ar incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n ddifidend .....	48
Tabl A.2: Cyfraddau Cymru a rhagolygon treth incwm cyfatebol Lloegr a Gogledd Iwerddon fesul band .....	49
Tabl A.3: Trethi trafodion eiddo .....	49
Tabl A.4: Trethi tirlenwi .....	50





Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

 **Archwilio Cymru**  
**Audit Wales**

Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee  
FIN(6)-01-23 P6

# Cynllun Ffioedd 2023-24

Ionawr 2023

Cynllun ffioedd yw hwn a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2023



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**

Cadeirydd, Swyddfa  
Archwilio Cymru

# Cynnwys

<b>Trosolwg</b>	<b>4</b>
Cyflwyniad	4
Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd	6
Codi ffioedd	10
<b>Atodiadau</b>	<b>11</b>
1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24	12
2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud	14
3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023	16

# Cyflwyniad

---

- 1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail yr ydym yn codi ffioedd arni.
- 2 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn nodi:
  - y deddfiadau yr ydym yn codi ffioedd archwilio oddi tanynt (**Atodiad 2**).
  - y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
    - graddfeydd ffioedd sy'n nodi ystodau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
    - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.
- 3 Yn fras, ariennir 66% o'n gwariant drwy ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig. Daw'r 34% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r cynnig cyllidebol a basiwyd gan y Senedd.
- 4 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gorff **beidio â bod yn fwy** na'r gost lawn o arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi ar gyfer y corff hwnnw. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail ein hamcangyfrif o'r sylfaen gostau, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau ar gyfer gwaith archwilio a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith. Mae ein cyfraddau ffioedd wedi eu pennu ar lefel er mwyn adennill yr amcangyfrif o'r gost lawn, ond dim mwy.
- 5 Aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori statudol ar ffioedd ac, ym mis Awst 2022, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff archwiliedig a rhanddeiliaid eraill ar ein cyfraddau ffioedd a'n graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24.

- 6 Gwnaeth yr ymgynghoriad hwn drafod y canlynol:
  - cynnydd cyfartalog arfaethedig o 5.5% yn ein cyfraddau ffioedd;
  - cynnydd posibl o 12 i 18% yn ein harchwiliad o raddfeydd ffioedd cyfrifon sy'n gysylltiedig â gweithredu safon archwilio ddiwygiedig, ISA315;
  - cynnig i newid rhywfaint o gyllid ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad lleol o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn hwyluso mwy o adolygiadau thematig traws-sector.
- 7 Cawsom 17 o ymatebion a ddywedodd wrthym:
  - y byddai'r cynnydd o 5.5% yn ein cyfraddau ffioedd ac, yn benodol, y cynnydd o 12-18% yn ein graddfeydd ffioedd archwilio cyfrifon yn heriol i'r cyrff hynny nad oedd eu cyllidebau eu hunain yn cynyddu ar yr un lefel ac a oedd yn wynebu'r un pwysau costau byw ag Archwilio Cymru;
  - bod cyrff archwiliedig yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnawn ac yn cydnabod nad oes modd osgoi gweithredu ISA315;
  - bod yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad, a ysgogwyd gan y gofyniad i gynnwys Cynllun Ffioedd drafft yn ein Hamcangyfrif, yn anodd i rai cyrff;
  - nid oedd unrhyw bryderon penodol ynghylch y cynnig i newid cyllid ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad lleol o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru oddi wrth gyrff archwiliedig;
  - y byddai angen i ni weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau cwantwm ac effaith y newid arfaethedig.
- 8 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar yr ymatebion hyn ac wedi ymateb drwy ailystyried y cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd, gan leihau'r cynnydd arfaethedig o 5.5% i 4.8%.
- 9 Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff archwiliedig i liniaru effaith gweithredu ISA315 ar eu ffi archwilio a bydd ein Cyfarwyddwyr Ymgysylltu yn trafod ffioedd penodol i archwilio gyda phob corff wrth i ni gyrraedd y flwyddyn archwilio nesaf.
- 10 Ni allai Llywodraeth Cymru gadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrff iechyd sydd eu hangen i ddiogelu Cronfa Gyfunol Cymru, ac felly ni fyddwn yn gwneud y newid hwn ar gyfer 2023-24.
- 11 Rydym hefyd yn bwriadu parhau i sicrhau bod y Fenter Twyll Genedlaethol a'n digwyddiadau GPX ar gael am ddim i gyrff sy'n cymryd rhan.



# Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

## Cyfraddau ffioedd 2023-24

- 12 Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad ar ffioedd arfaethedig ym mis Awst 2022, mae angen i ni gydnabod pwysau costau byw ar staff ac rydym wedi gwneud darpariaethau ar gyfer codiadau cyfog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Lle bo modd, rydym wedi lliniaru pwysau chwyddiant drwy nodi arbedion ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau megis llety a theithio, gydag arbedion o fwy na £2 filiwn dros y pum mlynedd nesaf yn cael eu nodi.
- 13 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ansawdd archwilio i ymateb i adolygiadau diweddar y DU gyfan<sup>1</sup> o safonau archwilio a safonau proffesiynol newydd. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol o waith archwilio ac o ansawdd y gwaith archwilio hwnnw.
- 14 Mae ystyried y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod angen i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd ar gyfartaledd o 4.8% yn 2023-24 – gostyngiad o'i gymharu â'r cynnydd arfaethedig o 5.5% a nodir yn ein papur ymgynghori.
- 15 Nodir ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn **Arddangosyn 1**.

1 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon



**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2023-24**

<b>Gradd</b>	<b>Cyfradd (£ yr awr) 2023-24</b>	<b>Cyfradd (£ yr awr) 2022-23</b>
Cyfarwyddwr Archwilio	168	163
Rheolwr Archwilio	129	122
Arweinydd Archwilio	106	100
Uwch-archwilydd	85	84
Archwilydd	61	60
Hyfforddai graddedig	55	51
Prentis	40	39

- 16 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, pan fo'n berthnasol, yn rheoleiddio'r swm sydd i'w godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau mewn termau y cytunwyd arnynt). Os yw'n ymddangos wedyn fod y gwaith sy'n gysylltiedig ag archwiliad penodol yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi sy'n wahanol i'r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol.

## Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2023-24

- 17 Ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus yw graddfeydd ffioedd, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd o'u cymharu â'r terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith hefyd fel y gall archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff archwiliedig penodol.
- 18 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer:
  - gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
  - gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<sup>2</sup> (awdurdodau tân ac achub yn unig);
  - gwaith o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
  - gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).
- 19 Darperir graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2022-23, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad i'w gynnal yn 2023-24, yn **Atodiad 3** mewn cysylltiad ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstablaiid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.
- 20 Darperir graddfa ffioedd ar wahân i ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- 21 Mae archwilio perfformiad hefyd yn cynnwys archwiliadau datblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac arolygiadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff archwiliedig.
- 22 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i gyrff archwiliedig am y gwaith sydd i'w wneud ar archwiliadau penodol a bod â threfn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiannau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail yr amcangyfrif o'n gwariant, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Pan fydd y gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, o ganlyniad i gymhlethdodau yn ystod yr archwiliad, efallai y byddwn yn codi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

---

2 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhan o broses ddiddymu raddol wrth i ddarpariaethau amrywiol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym.

## Gweithredu ISA315

- 23 Fel y nodwyd yn ymgynghoriad mis Awst, bydd ein harchwiliadau ar gyfer cyfrifon a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael eu cynnal o dan safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Nodi ac Asesu Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol). Bydd y safon ddiwygiedig yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar y ffordd y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad cyffredinol. Disgwylir y bydd archwiliadau – yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf o weithredu (archwiliadau 2022-23) – yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio staff mwy cymwys i ymdrin â'r lefel uwch o farn sy'n ofynnol gan y safon.
- 24 Ein hasesiad cychwynnol o effaith y cymysgedd sgiliau cyfoethocach hwn yw cynnydd cyfartalog rhwng 12% a 18% yn y graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol. Amcangyfrif yw hwn ar hyn o bryd a bydd yn cael ei adolygu ar ôl gweithredu ein dull diwygiedig yn hanner cyntaf 2023. Rydym yn ymwybodol bod cwmnïau archwilio'r sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn rhoi gwybod iddynt fod ffioedd yn debygol o godi hyd at 20%, o ganlyniad i'r gofyniad newydd hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad lleol

- 25 Trafododd ein hymarfer ymgynghori'r potensial i newid elfen o gyllid ar gyfer gwaith perfformiad lleol mewn 22 o brif gynghorau a saith bwrdd iechyd er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni adolygiadau mwy thematig a thraws-sector.
- 26 Ni allai Llywodraeth Cymru gadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrrff iechyd sydd eu hangen i ddiogelu Cronfa Gyfunol Cymru. Felly, nid yw'r graddfeydd ffioedd a nodir yn **Atodiad 3** yn adlewyrchu'r newid hwn.



# Codi ffioedd

---

- 27 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrrff archwiliedig, a gallent gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.
- 28 Disgwylir i gyrff archwiliedig dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau credydwy, sef deng niwrnod fel arfer. Mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.
- 29 Os bydd angen hynny ar gyrff archwiliedig, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn anfon anfonebau.
- 30 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â'r aseiniad o'u cymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sy'n fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddwn yn codi costau ychwanegol pan fydd y ffi yn rhy isel. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis drwy wrthbwysu ffioedd yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgareddau archwilio.



# Atodiadau

---

- 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24**
- 2 Rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae’n rhaid iddi wneud**
- 3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023**

# 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

- (1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- (2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:
  - (a) rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi oddi tanynt;
  - (b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
  - (c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
  - (ch) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.
- (3) Caiff y cynllun wneud y canlynol, ymysg pethau eraill:
  - (a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol;
  - (b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

- (4) O ran y cynllun:
  - (a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;
  - (b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg;
  - (c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol<sup>[3]</sup>.
- (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:
  - (a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data); neu
  - (b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- (6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.
- (7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad
- (8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

---

3 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn cyfeirio at y 'Cynulliad Cenedlaethol' er i'r enw newid i 'Y Senedd'.

## 2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

Natur y gwaith	Deddfiadau
<b>Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol</b>	
Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol).	Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrrff llywodraeth leol – gweler isod).	Adran 23(3)(a), (b) a (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Ymchwiliad, ardstiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru.	Adran 23 (3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013
Ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy).	Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.	Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol.	Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004



Natur y gwaith	Deddfiadau
Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.	Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 Ceir gwneud telerau talu yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan a24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn unig
<b>Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol</b>	
Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol	Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Cymorth i Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant Cymru	Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997
Astudiaethau sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai)	Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol	Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol	Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Gwasanaethau ardystio grantiau	Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Astudiaethau ar gais cyrff addysgol	Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Archwiliadau gwybodaeth gwelliant, asesiadau gwelliant ac arolygiadau arbennig o Awdurdodau Gwella Cymru	Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
Arolygiadau arbennig o brif gynghorau	Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## 3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023

### Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed o dan y Fenter Twyll Genedlaethol

- 31 Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd am baru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a rhagnodi'r graddfeydd hynny. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 32 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn adnodd effeithiol iawn wrth ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronus i £42.9 miliwn ers 1996.
- 33 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol.
- 34 Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

#### Arddangosyn 2: ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

##### Ffi 2023-24

Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol.	Dim
Cyfranogwyr gwirfoddol	Dim
Hefyd, gellir rhoi mynediad i'r holl gyfranogwyr at wiriwr ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check).	Dim

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol

35 Mae ein graddfa ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried yr adnoddau ychwanegol disgwylidig sydd eu hangen ar gyfer gweithredu ISA315 ar yr archwiliad o gyfrifon 2022-23. Byddwn yn gweithio gyda chyrff archwiliedig i liniaru costau ychwanegol lle bo modd.

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23

Gwariant Gros £ miliwn	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
100	135	159	183	139
200	163	191	220	167
300	181	213	245	186
400	196	230	265	200
500	208	244	281	213
600	218	257	295	223
700	227	267	307	233
800	235	277	319	241
900	243	286	329	249
1,000	250	294	338	256
1,100	256	302	347	262
1,200	262	309	355	268

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

Pob awdurdod unedol	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	137	146	164	105

**Graddfeydd ffioedd ar gyfer cronfeydd pensiwn llywodraeth leol****Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

Pob cronfa bensiw	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	36	48	57	41

**Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub****Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

Gwariant Gros £ miliwn	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
20	40	47	54	41
40	48	56	65	49
60	53	63	72	54
80	57	68	78	59
100	61	72	82	62

**Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

Pob awdurdod tân ac achub	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	17	17	17	17

**Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol****Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

Gwariant Gros £ miliwn	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
2	25	29	33	25
4	30	35	40	30
6	33	39	45	34
8	36	42	48	36
10	38	44	51	39

**Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Amrediad ffioedd			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	22	22	26	21

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu

- 36 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu– y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredu a roddwyd ar waith gan y cyrff.

### Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23

Gwariant Gros Cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn	Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabliaid			Y flwyddyn flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
50	68	78	89	69
100	80	93	106	81
150	88	102	117	90
200	95	110	125	96
250	100	116	133	102
300	105	122	139	106
350	109	126	144	111

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyngorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blyneddol o dan £2.5 miliwn

- 37 Mae cyngorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio sicrwydd cyfyngedig
- 38 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

### Arddangosyn 11 – cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cyngorau tref a chymuned

	Grŵp A	Grŵp B	Grŵp C
Blwyddyn 1	Profi trafodiadau	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 2	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodiadau	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 3	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodiadau

- 39 Seilir y costau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad ar gostau cyfradd ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 6.
- 40 O dan amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd cyhoeddus, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.
- 41 Pwysleisir y bydd y gost wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser gwirioneddol a weithiwyd ar yr archwiliad penodol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y mae'r amrediad ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12**.

## Arddangosyn 12: amcangyfrif o'r costau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cyngorau tref a chymuned 2022-23

	Band 1 (<£10k)	Band 2 (<£25k)	Band 3 (<£50k)	Band 4 (<£100k)	Band 5 (<£500k)	Band 6 (>£500k)
Archwilio	£150 –	£170 –	£230 –	£356 –	£635 –	£845 –
trafodiadau	£183	£200	£282	£435	£760	£1,090
Gweithdrefnau	£110 –	£136 –	£136 –	£210 –	£210 –	£210 –
cyfyngedig	£130	£162	£162	£250	£250	£250

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

- 42 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir rhai mathau eraill o gyrff llywodraeth leol y mae'r broses o ragnodi graddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion adnoddau yn ffioedd wedi'u seilio'n uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel y nodwyd yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gydbwyllgorau Corfforaethol. Mae'n dal yn wir, ar gyfer archwilio'r gyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio'r archwiliadau.
- 43 Cyfrifir amcangyfrif ffioedd archwilio gyrff archwiliedig nas cwmpeisir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn yr un modd â'r rhai a gwmpesir ganddo – hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r amcangyfrif o'r cymysgedd tîm a nifer yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r archwiliad.
- 44 Yn achos y gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw symiau o'r fath yn fwy na'r gost lawn o ddarparu'r gwasanaeth.
- 45 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, bydd y tâl am hyn yn cael ei godi ar gyrff archwiliedig yn ychwanegol at gost ein staff archwilio.



- 46 Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol weithiau (y rhai a nodwyd yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd costau y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.
- 47 Mae'n bosibl hefyd y bydd archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau**

<b>Gradd y staff</b>	<b>Cymysgedd staff grantiau cymhleth %</b>	<b>Cymysgedd staff pob math arall o grantiau %</b>
Cyfarwyddwr ymgysylltu	1 i 2	0 i 1
Rheolwr Archwilio	4 i 6	1 i 2
Arweinydd Archwilio	18 i 21	12 i 16
Archwilydd/hyfforddai graddedig/prentis	71 i 77	81 i 87

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

# Eitem 11

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

### (MEMORANDWM RHIF 3)

#### BIL BANC SEILWAITH Y DU

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru (“y Senedd”) os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU (“y Bil”) yn Nhŷr Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Cyhoeddwyd creu banc seilwaith y DU (“y Banc”) gyntaf gan y Canghellor yn Adolygiad o Wariant 2020. Lanswyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021, ac mae eisoes wedi dechrau gwneud buddsoddiadau.
3. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 25 Mai 2022, gan roi sylw i ddarpariaethau yn y Bil fel y’i cyflwynwyd.
4. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd ar 8 Gorffennaf a roddodd sylw i welliannau a basiwyd yn ystod ei daith drwy Dŷr Arglwyddi.
5. Cafodd gwelliannau i’r darpariaethau yn y Bil eu cyflwyno i’w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷr Cyffredin ar 22 Tachwedd 2022, pan gytunwyd ar welliannau Llywodraeth y DU. Mae’r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn rhoi sylw iddynt.
6. Daeth Cyfnod Pwyllgor Tŷr Cyffredin i ben ar 22 Tachwedd 2022.
7. Mae’r fersiwn gyfredol o’r Bil ochr yn ochr â manylion yr holl welliannau i’w gweld ar wefan Senedd y DU: [Bil Banc Seilwaith y DU \[HL\] - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#)
8. Mae Llywodraeth Cymru, drwy drafodaethau â Llywodraeth y DU, wedi gofyn am welliannau sy’n ymwneud â chylch gwaith y Banc mewn meysydd sydd wedi eu datganoli i sicrhau bod datganoli’n cael ei barchu. Mae’r rhan fwyaf o’r gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷr Cyffredin yn ymwneud â’r trafodaethau hyn.

#### Amcanion Polisi

9. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil yw sefydlu’r Banc i helpu i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol drwy ddarparu mynediad at offerynnau ariannol, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau lleol i alluogi buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yn gweithredu ledled y DU.

## **Crynodeb o'r Bil**

10. Noddir y Bil gan Drysorlys Ei Fawrhydi.
11. Diben datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil hwn yw gosod y Banc ar sail statudol. Mae'r Banc yn sefydliad annibynnol yn weithredol sydd ym mherchnogaeth lwyr y Llywodraeth.
12. Drwy osod y Banc ar sail statudol, mae'r Bil yn ceisio:
  - a) cadarnhau a rhoi grym statudol i amcanion a gweithgareddau'r Banc;
  - b) sicrhau bod y Banc yn sefydliad hirhoedlog;
  - c) creu ffurfiau statudol o dryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer y Banc;
  - d) dileu rhwystrau cyfreithiol sy'n atal y Banc rhag benthyca'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol; ac
  - e) rhoi pwerau penodol i'r Trysorlys i roi cymorth ariannol i'r Banc.

## **Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso**

13. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.
14. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gymysgedd o gymhwysedd a gedwir yn ôl a chymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae materion sy'n ymwneud ag ynni, rheilffyrdd trawsffiniol a chyfathrebu digidol yn achosion pan fo buddsoddi mewn seilwaith yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl. Mae materion eraill megis rheilffyrdd, porthladdoedd neu bontydd o fewn un wlad neu ardal ddatganoledig yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## **Gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

15. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg o ran Cymru.
16. Mae manylion yr holl welliannau a ystyriwyd yn y Cyfnod Pwyllgor gan gynnwys eu cyfeirnodau, drafftio penodol ac a gytunwyd arnynt ai peidio ar wefan Llywodraeth y DU isod.

[https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0140/amend/ukinfra\\_pro\\_pbc\\_1122.pdf](https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0140/amend/ukinfra_pro_pbc_1122.pdf)

17. Noder nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ystyried y rhai na chytunwyd arnynt.
18. Nodir isod y gwelliannau y cytunwyd arnynt.

## **Cymal 2**

### **Y cymal gwreiddiol:**

19. *Cymal 2 – Amcanion a gweithgareddau*

Tudalen y pecyn 235

20. Mae hyn yn pennu beth fydd amcanion a gweithgareddau'r Banc. Amcanion y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Gweithgareddau'r Banc yw darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (i gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus ar gyfer prosiectau o'r fath a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill ar gyfer prosiectau o'r fath. Caniateir i'r gweithgareddau uchod, a'r diffiniad o'r hyn sy'n cwmpasu 'seilwaith' at ddibenion gweithgareddau o'r fath, gael eu newid gan y Trysorlys drwy reoliadau a wneir gan offeryn statudol.

21. Mae angen cydsyniad – caiff y Senedd ddeddfu i roi'r swyddogaethau hyn (sydd, fel uchod, eu hunain yn ymwneud â meysydd datganoledig o'r gyfraith) i gorff y mae'n ei greu.

## **Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 2:**

### Gwelliant y Llywodraeth 8

22. Byddai'r gwelliant hwn, a Gwelliant 9, yn egluro y caiff y Banc ddarparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus heblaw awdurdodau lleol ac adrannau Gogledd Iwerddon (yn ogystal ag i bersonau heblaw awdurdodau cyhoeddus).

### Gwelliant y Llywodraeth 1

23. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r cyfeiriad at "strwythurau sy'n sail i'r economi gyloch, ac atebion ar sail natur," o'r diffiniad o "seilwaith".

### Gwelliant y Llywodraeth 2

24. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu is-adran (6), a fewnosodwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

### Gwelliant y Llywodraeth 3

25. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7) a fyddai'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod o dan sylw.

### Cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 2

26. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

## **Cymal 3**

### **Y cymal gwreiddiol:**

27. Cymal 3 – *Blaenoriaethau a chynlluniau strategol*

28. *Mae cymal 3 yn nodi bod rhaid i'r Trysorlys baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc ac yn caniatáu y caiff y Trysorlys ddiwygio neu ddisodli datganiad o'r fath. Ymhellach, mae'n nodi bod rhaid i'r Banc sicrhau bod ei erthyglau cymdeithasu yn darparu i'r Banc gyhoeddi a gweithredu yn unol â chynlluniau strategol sy'n adlewyrchu datganiad y Trysorlys, ac i ddiweddarau'r cynlluniau hynny pryd bynnag y bydd y Trysorlys yn diwygio neu'n disodli ei ddatganiad.*
29. Mae angen cydsyniad – mae'r cymal hwn yn ymdrin â llywodraethiant corfforaethol corff corfforedig sy'n bodoli eisoes. Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth uchod yn erbyn y materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi dod i'r casgliad (gan fod amcanion a gweithgareddau'r corff corfforedig a enwyd o fewn cymhwysedd – gweler y dadansoddiad o gymal 2 uchod) nad oes unrhyw beth wedi ei gynnwys yno a fyddai'n golygu bod darpariaeth o'r fath y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

### **Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 3:**

#### Gwelliant y Llywodraeth 4

30. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn cynnwys mewn datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc unrhyw ddarpariaeth y mae'r Trysorlys yn bwriadu ei chynnwys yn y datganiad ac sy'n ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod o dan sylw.
31. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

### **Cymalau 6 a 7**

#### **Y cymal gwreiddiol:**

32. *Cymalau 6 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol) a 7 (Cyfarwyddwyr: penodi a deiliadaeth)*
33. *Mae cymal 6 yn nodi bod rhaid i gyfarwyddwyr y Banc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cydymffurfio ag adran 441 o Ddeddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â blwyddyn ariannol, darparu i'r Trysorlys gopi o'r cyfrifon a'r adroddiadau y mae'n ofynnol iddynt eu darparu. Ymhellach, mae'r cymal yn gorfodi'r Trysorlys i osod copi o'r cyfrifon a'r adroddiadau hynny gerbron Senedd y DU.*
34. *Mae cymal 7 yn ymdrin â materion llywodraethiant corfforaethol sy'n ymwneud â phenodi a deiliadaeth cyfarwyddwyr ar gyfer y Banc.*
35. Mae angen cydsyniad – mae'r cymalau hyn yn ymdrin â llywodraethiant corfforaethol corff corfforedig sy'n bodoli eisoes ac, o ganlyniad, rydym wedi dod i'r casgliad (gan fod amcanion a gweithgareddau'r corff corfforedig a enwyd o fewn cymhwysedd – gweler y dadansoddiad o gymal 2 uchod) y byddent o fewn

cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe baent yn cael eu cynnwys mewn Deddf gan y Senedd yn ymwneud â chwmni a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.

### **Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 6 a 7:**

Gwelliant y Llywodraeth 5

36. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y Banc gynnwys un neu ragor o gyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol priodol wrth wneud penderfyniadau.
37. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

### **Cymalau 10 ac 11**

**Y cymal gwreiddiol:**

38. *Cymal 10 (Dehongli) ac 11 (Rhychwant ac enw byr)*
39. *Mae cymalau 10 ac 11 yn diffinio'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil, ac yn nodi rhychwant y 'Ddeddf', y dyddiad y daw i rym a'i henw byr.*
40. Mae angen cydsyniad - gan eu bod yn ategol i weddill y Bil, deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

### **Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 10 ac 11:**

Gwelliant y Llywodraeth 6

41. Byddai'r gwelliant hwn yn diffinio "awdurdod cenedlaethol priodol".

Gwelliant y Llywodraeth 9

42. Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol i'r newid a wneir i gymal 2 fel y'i disgrifir ym mharagraff 22 uchod (mae'n darparu'r diffiniad o'r term 'awdurdodau cyhoeddus' fel sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwelliant hwnnw).

Gwelliant y Llywodraeth 7

43. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r gwelliant baint a fewnosodwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

Cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 10 ac 11

44. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

Tudalen y pecyn 238

45. Mae barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad yn parhau i fod yr un fath â'r farn a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a gyflwynwyd ar 25 Mai 2022.

### **Safbwynt Polisi Presennol Llywodraeth Cymru**

46. Nid oedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd na Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, ac roedd yn cadw gweithgareddau penodol ar gyfer Senedd y DU, y Canghellor a Thrysorlys Ei Fawrhydi.

47. Mae cymal 2 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio gweithgareddau'r Banc a'r diffiniad o seilwaith. Drwy Welliant y Llywodraeth 3 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

48. Yn yr un modd, mae cymal 3 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio neu ddisodli'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc. Drwy Welliant y Llywodraeth 4 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

49. Mae Gwelliant y Llywodraeth 5 yn nodi bod rhaid i'r Bwrdd benodi un neu ragor o Gyfarwyddwyr i ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu dyletswydd statudol i gysylltu ag o leiaf un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd a Gweinidogion Cymru, gan helpu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried ar y Bwrdd.

50. Mae'r tri gwelliant a amlinellir uchod yn darparu rôl statudol i Weinidogion Cymru neu'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru yn y tri phrif faes lle mae gan Lywodraeth y DU bwerau penodol. Er nad yw'r canlyniad yn gwireddu fy holl amcanion, credaf fod gwelliannau Llywodraeth y DU yn gyfaddawd rhesymol a fydd yn galluogi i fuddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu drwy waith y Banc.

### **Goblygiadau Ariannol**

51. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r memorandwm hwn.

### **Casgliad**

52. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer pob gwelliant i'r Bil.

53. Gwnaed gwelliannau i'r Bil er mwyn adlewyrchu buddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru yn well ac i barchu'r setliad datganoli yn well. Rwyf felly yn awr yn argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r Bil. Maes o law, bwriadaf felly argymhell bod y Senedd yn cydsynio i basio'r Bil hwn.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**30 Tachwedd 2022**



# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Banc Seilwaith y DU

Rhagfyr 2022

Ar 6 Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 3) ar gyfer y Bil Banc Seilwaith y DU ac i gyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 16 Ionawr 2023.



Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon